Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 16/2025

Dyddiad Cyhoeddi: 17/02/2025

Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol iechyd, a llesiant (gwerthusiad terfynol)

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-318-3

Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol, iechyd a llesiant (gwerthusiad terfynol)

Awduron: Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymunedau-digidol-cymru-hyder-digidol-iechyd-llesiant-gwerthusiad-terfynol

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Dr Angela Endicott
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru
ISBN: 978-1-83715-318-3
© Hawlfraint y Goron 2025

Cynnwys

Rhestr o'r tablau a'r ffigurau 2
Geirfa 3
1. Cyflwyniad 5
2. Methodoleg 8
3. Datblygiadau strategol a datblygiadau polisi diweddar 13
4. Cynnydd yn erbyn argymhellion y gwerthusiad interim 22
5. Newidiadau a datblygiadau diweddar i ofynion cyflawni'r rhaglen 26
6. Pa mor effeithiol y gweithredwyd y rhaglen 31
7. Perfformiad a chyflawniadau 40
8. Y gwahaniaeth a wnaed i sefydliadau a gefnogwyd 50
9. Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru 71
10. Y dyfodol 83
11. Casgliadau ac argymhellion 87

Rhestr o'r tablau a'r ffigurau

Tabl 5.1: Dangosyddion perfformiad allweddol (Ebrill 2024 i Fehefin 2025)..... 28
Tabl 5.2: Canlyniadau'r rhaglen (Ebrill 2024 i Fehefin 2025)..... 28
Tabl 7.1: Perfformiad CDC yn ystod Blwyddyn 4 (12 mis) a Blwyddyn 5 (9 mis) 42
Tabl 7.2: Perfformiad CDC hyd yma Ebrill 2024 i Mehefin 2025 (15 mis) 45
Tabl 7.3: Cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen CDC..... 47
Tabl 7.4: Cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen CDC (Chwarter 1 i 3, data Blwyddyn 5)..... 48
Tabl 7.5: Cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen CDC (Chwarter 5, Blwyddyn 5 a Chwarter 1, Blwyddyn 6)..... 49
Ffigur 9.1: Amlder mynychu cyfarfodydd CCDC dros y flwyddyn flaenorol 74
Ffigur 9.2: Amrywiaeth a chynrychiolaeth ymysg aelodau CCDC 75
Ffigur 9.3: Pa mor ddefnyddiol yw bod yn aelod o CCDC 76
Ffigur 9.4: Y gwerth a osodir ar CCDC fel mecanwaith ar gyfer gwneud Cymru yn genedl ddigidol gynhwysol..... 77
Ffigur 9.5: Y cyfraniad a wnaed gan CCDC hyd yma tuag at wireddu ei phum blaenoriaeth allweddol..... 79

Geirfa

AaGIC

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

AD

Adnoddau Dynol

AGC

Arolygiaeth Gofal Cymru

BBaChau

Busnesau Bach a Chanolig

BIPBC

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

BIPCaF

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

CCDC

Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru

CDC

Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (2019-2025)

CDPS

Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol

CLILC

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

DPA

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DSPP

Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd

DWP

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

GIG

Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

IGDC

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

MDLS

Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol

NWIS

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

VR

Realiti Rhithwir

WEST

Sgiliau a Hyfforddiant Cyflogaeth ar gyfer Llesiant

Y Ddeddf Llesiant

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

1. Cyflwyniad

1.2 Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (CDC). Mae CDC yn rhaglen chwe blynedd, yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i fynd ar drywydd yr opsiwn i ymestyn y contract cyflawni tair blynedd gwreiddiol. Darperir y rhaglen gan Cwmpas, ar y cyd â'r Good Things Foundation a Phrifysgol Abertawe, i leihau allgáu digidol a helpu i wella lefelau sgiliau digidol sylfaenol ledled Cymru.

1.3 Buddsoddodd Llywodraeth Cymru £6 miliwn o gyllid refeniw[1] yn y rhaglen dros gyfnod o dair blynedd rhwng 1 Gorffennaf 2019 a 31 Mehefin 2022 (y cam cyntaf, Blynyddoedd 1 i 3). Darparwyd cyllid refeniw ychwanegol o £6 miliwn am gyfnod pellach o dair blynedd rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 31 Mehefin 2025 (yr ail gam, Blynyddoedd 4 i 6).

1.4 Nodau'r gwerthusiad oedd:

- adolygu a chrynhoi'r dystiolaeth bresennol ynghylch y berthynas rhwng cynhwysiant digidol ac iechyd
- adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ffordd y darparwyd y rhaglen
- asesu i ba raddau y mae nodau'r rhaglen wedi'u cyflawni a'r targedau wedi'u cyrraedd
- darparu tystiolaeth o ganlyniadau'r rhaglen i unigolion a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.

1.5 Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn tri phrif gam:

- roedd y cam cyntaf yn cynnwys paratoi adroddiad gwerthusiad proses a damcaniaeth newid yn ystod 2020[2]

[1] Mae cyllid refeniw yn wahanol i gyllid cyfalaf yn yr ystyr ei fod yn ariannu gweithgareddau tymor penodol neu dymor byr megis staff. Defnyddir cyllid cyfalaf i ariannu nwyddau y gellir eu defnyddio dros gyfnod mwy hirdymor, megis cyfarpar.
[2] Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant | LLYW.CYMRU

- roedd yr ail gam yn cynnwys paratoi gwerthusiad interim o'r broses a'r canlyniadau yn ystod 2022[3]
- roedd y trydydd cam yn cynnwys paratoi'r gwerthusiad terfynol crynodol hwn. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal y cam hwn yn 2022 ond cafodd ei ymestyn i 2025 i gyd-fynd â'r estyniad i'r rhaglen.

1.6 Yn ogystal â hynny, paratowyd adroddiad diweddaru byr yn 2023[4] i adolygu perfformiad y rhaglen yn erbyn y targedau ar gyfer y cyfnod cyflawni rhwng Gorffennaf 2019 a Mehefin 2023.

1.7 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil desg a gwaith maes a wnaed gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, staff cyflawni, sefydliadau a gefnogir a buddiolwyr y rhaglen. Ei fwriad yw canolbwyntio ar gyflawniadau a chanlyniadau cyffredinol y rhaglen.

1.8 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn 11 o benodau, fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: amlinelliad o'r fethodoleg ar gyfer y cam olaf hwn o'r gwerthusiad
- pennod tri: diweddariad ar y cyd-destun strategol a'r cyd-destun polisi ar gyfer y rhaglen CDC ers paratoi adroddiad gwerthuso yr ail gam yn 2021
- pennod pedwar: ystyriaeth gryno o'r cynnydd a wnaed gan y rhaglen yn erbyn argymhellion y gwerthusiadau blaenorol
- pennod pump: amlinelliad o'r newidiadau a'r datblygiadau diweddar a wnaed ar draws y rhaglen
- pennod chwech: ystyriaeth o effeithiolrwydd gweithredu'r rhaglen
- pennod saith: adolygiad o berfformiad y rhaglen yn erbyn y targedau a ariennir

[3] Ibid.
[4] Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant | LLYW.CYMRU

- pennod wyth: ystyriaeth o'r canlyniadau a gyflawnwyd gan CDC a'r gwahaniaeth a wnaed i sefydliadau a buddiolwyr a gefnogir
- pennod naw: adolygiad o’r gwaith a’r gwahaniaeth a wnaed gan Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (CCDC)
- pennod 10: amlinelliad o ganfyddiadau'r gwaith maes mewn perthynas â dyfodol CDC
- pennod 11: ein casgliadau a’n hargymhellion i Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill eu hystyried ar gyfer y dyfodol.

2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad terfynol crynodol. Mae hefyd yn cynnwys proffil o'r sefydliadau a gafodd eu cyfweld a'r buddiolwyr a gyfrannodd at y gwerthusiad terfynol ac yn cyflwyno ystyriaethau methodolegol allweddol.

Dull

2.2 Roedd y gweithgareddau gwerthuso a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2024, yn cynnwys:

- mynychu cyfarfod cychwynnol ar gyfer y cam olaf gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a mireinio rhaglen waith y gwerthusiad crynodol
- adolygu dogfennau polisi a dogfennau strategol diweddar, gan gynnwys dogfennau'r rhaglen CDC a'r data monitro
- drafftio canllawiau trafod ar gyfer cyfweld â chyfranwyr ac arolwg dwyieithog ar-lein ar gyfer aelodau Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (CCDC) (gweler Atodiad A)
- cyfweld â phump o swyddogion Llywodraeth Cymru (gan gynnwys aelodau o’r tîm cynhwysiant digidol sy’n gyfrifol am reoli contract CDC), ac wyth aelod o dîm cyflawni CDC: o blith y rhain, roedd chwech wedi’u lleoli yn Cwmpas, un ym Mhrifysgol Abertawe ac un yn y Good Things Foundation
- gofyn am fanylion 12 o sefydliadau a gefnogir gan CDC a dewis chwech o'r rhain ar gyfer astudiaethau achos manwl. Y bwriad oedd y byddai pob astudiaeth achos yn cynnwys cyfweliad ag aelod allweddol o staff y sefydliad, cyfweliad â chynghorydd CDC a oedd wedi eu cefnogi, sesiwn arsylwi digwyddiad hyfforddi (yn ddelfrydol wyneb yn wyneb) a chyfweliadau/trafodaethau grŵp gyda buddiolwyr megis staff sy'n cymryd rhan, aelodau, gwirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaethau
- cwblhau'r gwaith maes canlynol:

    - cyfweliadau rhithwir gyda phedwar cynghorydd CDC[5]
    - cyfweliadau rhithwir gyda naw cynrychiolydd staff o bob un o'r chwe sefydliad
    - casglu adborth gan 23 o fuddiolwyr ar draws pump o'r sefydliadau. Ac eithrio un, roedd y rhain yn gyfweliadau rhithwir gydag:
        - un rheolwr cartref gofal
        - un aelod o'r cyhoedd
        - tri aelod o staff a oedd wedi cael hyfforddiant Hyrwyddwyr Digidol
        - sesiwn grŵp ffocws wyneb yn wyneb gyda 18 o fuddiolwyr a oedd yn ddefnyddwyr gwasanaethau
    - arsylwi sesiwn hyfforddi rithwir a gynhaliwyd gan CDC i staff un sefydliad bwrdd iechyd
- ystyried gwerth ailgyfweld â'r 10 sefydliad a fu'n rhan o'r astudiaethau achos yn y gwerthusiad interim o'r broses a'r canlyniadau (2021) a thrafod y rhain gyda staff CDC. Nododd staff CDC fod y rhaglen wedi cefnogi saith o blith y 10 sefydliad hyn dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, ac y byddai'n werth cysylltu â nhw am gyfweliad dilynol i drafod eu profiadau diweddar o CDC. Cysylltwyd â'r saith sefydliad am gyfweliad a chyfrannodd pedwar at y gwerthusiad. Mewn un achos, cafodd unigolyn gwahanol ei gyfweld yn y sefydliad oherwydd newidiadau staff. Ni chafwyd ymateb gan y tri sefydliad arall
- ymgymryd â gwaith maes ar feysydd gwaith penodol ar draws rhaglen CDC. Roedd hyn yn cynnwys:
    - ar gyfer CCDC: hwyluso trafodaeth gydag aelodau o Grŵp Llywio CCDC, mewn cyfarfod a drefnwyd ymlaen llaw ym mis

[5] Roedd dau o'r cynghorwyr hyn wedi cefnogi dau sefydliad yr un a oedd yn rhan o'r astudiaethau achos

Medi 2024 a threfnu bod y rhaglen yn dosbarthu dolen yr arolwg i aelodau CCDC. Dosbarthwyd yr arolwg i bob aelod (139 o unigolion) a daeth 38 o ymatebion i law, sef cyfradd ymateb o 27%. Cwblhaodd pob ymatebydd yr arolwg yn Saesneg. Mae'r dadansoddiad o waith CCDC hefyd yn seiliedig ar y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda staff cyflawni a sefydliadau sy'n rhan o'r astudiaethau achos

  - ar gyfer y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr: cyfweld â chynrychiolydd o sefydliad sy'n cefnogi sipsiwn a theithwyr ledled Cymru a defnyddio'r cyfweliadau a gynhaliwyd ag aelodau o staff CDC
  - ar gyfer y gymuned anabl: cyfweld â dau gynrychiolydd o ddau grŵp anabledd a defnyddio'r cyfweliadau a gynhaliwyd gydag aelodau o staff CDC

- cyfuno canfyddiadau'r adolygiad desg a'r gwaith maes; a pharatoi'r adroddiad gwerthuso crynodol terfynol.

Proffil o'r sefydliadau a gyfrannodd at y gwerthusiad

2.3 Roedd y chwe sefydliad newydd a oedd yn rhan o'r astudiaethau achos yn drawstoriad o sefydliadau a oedd wedi cymryd rhan yn CDC:

- roedd y chwech wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ledled Cymru: roedd un yn cwmpasu Cymru gyfan, roedd un wedi'i leoli yn y gogledd, roedd dau wedi'u lleoli yn ne-orllewin Cymru a dau yn ne-ddwyrain Cymru
- cynhwyswyd amrywiaeth o sefydliadau: roedd dau yn awdurdodau lleol, dau yn sefydliadau iechyd (un yn fwrdd iechyd ac un yn ymddiriedolaeth iechyd), un yn ddarparwr tai cymdeithasol, ac un yn sefydliad trydydd sector gyda diddordeb mewn cefnogi pobl hŷn o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

2.4 Roedd proffil y pedwar sefydliad a ailgyfwelwyd fel a ganlyn:

- o ran y dosbarthiad daearyddol ar draws Cymru, roedd dau yn ne-ddwyrain Cymru, un yn y gogledd ac un yn y de-orllewin

- o ran y math o sefydliadau, roedd dau yn fyrddau iechyd, un yn awdurdod lleol ac un yn gymdeithas tai.

Ystyriaethau methodolegol

2.5 Er bod yr adroddiad hwn yn ystyried cyflawniadau a chanlyniadau cyffredinol CDC, mae'r adborth gan y sefydliadau sy'n rhan o'r astudiaethau achos yn canolbwyntio'n naturiol ar eu hymwneud â'r rhaglen dros y flwyddyn neu ddwy flynedd ddiwethaf. Gan i'n hadroddiad interim gael ei baratoi yn 2021, rydym yn cydnabod efallai nad yw tystiolaeth ynghylch ymyriadau'r rhaglen rhwng 2021 a 2022 wedi'i chynrychioli'n gryf yn yr adborth a gasglwyd. Er mwyn unioni hyn, rydym wedi sicrhau bod yr adolygiad desg o ddogfennau'r rhaglen yn adlewyrchu gweithgareddau CDC yn ystod y cyfnod hwn.

2.6 Roedd rhyw elfen o duedd dethol wrth nodi sefydliadau newydd ar gyfer astudiaeth achos, gan inni gytuno y byddai CDC yn dewis y rhain er mwyn casglu profiadau sefydliadau a oedd wedi gweithio fwyaf dyfal gyda'r rhaglen dros y tair blynedd diwethaf. Er mwyn lliniaru hyn i ryw raddau, gofynnwyd am fanylion sampl o 12 sefydliad a dewiswyd hanner y rhain i'w cynnwys yn yr astudiaeth. Dewiswyd y chwe sefydliad ar hap ond gan sicrhau bod y sampl terfynol yn drawstoriad o'r mathau o sefydliadau a lleoliadau daearyddol.

2.7 Y bwriad oedd arsylwi cynifer o sesiynau hyfforddi a chwrdd wyneb-yn-wyneb â chynifer o fuddiolwyr â phosibl, yn anad dim oherwydd bod y pandemig COVID-19 wedi ein hatal rhag gwneud hynny fel rhan o waith maes y gwerthusiad interim. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o hyfforddiant CDC yn cael ei ddarparu'n ddigidol yn ystod cyfnod y gwerthusiad terfynol, felly roedd y cyfleoedd i arsylwi gweithgareddau wyneb-yn-wyneb yn gyfyngedig.

2.8 Bu recriwtio buddiolwyr ar gyfer cyfweliadau yn fwy o her na'r disgwyl, yn bennaf oherwydd ein bod yn dibynnu ar y sefydliadau a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaethau achos i adnabod a recriwtio cyfranwyr ar ein rhan. Cymerodd y sefydliadau a oedd yn rhan o'r astudiaethau achos fwy o amser na'r disgwyl i adnabod cyfranwyr posibl, gan fod hyn yn aml yn

golygu cyd-drafod â chydweithwyr i adnabod cyfrannwr addas. Roedd argaeledd cyfranwyr a oedd yn cael eu cyflogi gan sefydliadau, yn enwedig yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, hefyd yn gyfyngedig oherwydd ymrwymiadau gwaith a gwyliau blynyddol yn ystod cyfnod y gwaith maes. Yn y pen draw, llwyddwyd i siarad â buddiolwyr mewn pump o'r chwe sefydliad a oedd yn rhan o'r astudiaethau achos.

2.9 Yn ystod cam cychwynnol y gwerthusiad terfynol, fe wnaethom ystyried y posibilrwydd o adolygu'r ddarpariaeth sy'n gysylltiedig ag elfen newydd o waith a gyflwynwyd ar draws CDC yn ymwneud ag interniaethau â thâl, ond gan mai dim ond adeg ein gwaith maes yr oedd hyn yn cael ei roi ar waith, daethom i'r casgliad na fyddai fawr o werth cyfweld ag interniaid a oedd ond wedi bod yn eu rôl ers ychydig wythnosau.

3. Datblygiadau strategol a datblygiadau polisi diweddar

3.1 Mae’r bennod hon yn crynhoi’r cyd-destun strategol a'r cyd-destun polisi ar gyfer rhaglen Cymunedau Digidol Cymru (CDC) ers paratoi ein hadroddiad ar y gwerthusiad interim o'r broses a'r canlyniadau yn 2021.

Tueddiadau o ran cynhwysiant digidol

3.2 Er y gwelwyd gostyngiad graddol yng nghyfran yr oedolion yng Nghymru nad ydynt yn defnyddio’r rhyngrwyd, o 14% yn 2012/13 i 7% erbyn 2020/21, awgryma'r data diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru[6] ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2022 i Fawrth 2023 fod y gyfran wedi gwastatáu ers hynny, gan aros ar 7%. Awgryma'r data o arolwg 2022 i 2023 fod 93% o oedolion yn defnyddio’r rhyngrwyd gartref, yn y gwaith neu yn rhywle arall. Dywedodd 92% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd eu bod yn defnyddio’r rhyngrwyd sawl gwaith y dydd, ac mae'r gyfran hon wedi cynyddu o 76% yn 2019/20. Y brif ddyfais a ddefnyddiwyd i gael mynediad at y rhyngrwyd oedd ffôn clyfar, a nodwyd hynny gan 91% o'r rhai a oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd. Nid yw'r data ar gyfran yr aelwydydd yng Nghymru sydd â mynediad i’r rhyngrwyd bellach yn cael eu casglu drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru, ac mae’r data diweddaraf ar gyfer y cyfnod tri mis rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2021 yn nodi mai 92%yw'r gyfran hon.

3.3 Ar ôl newid contractwyr yn 2023, mae Arolwg Cenedlaethol cyfredol 2024-25 yn mynd rhagddo, a disgwylir i’r canlyniadau cyntaf gael eu cyhoeddi yn ystod haf 2025. Oherwydd pwysau'n ymwneud â chostau a gostyngiad mewn cyfraddau ymateb i arolygon yn gyffredinol, ni fydd y gwaith maes ar gyfer Arolwg Cenedlaethol 2025-26 yn mynd yn ei flaen, ac mae gwaith eisoes wedi dechrau ar ddull o gynnal arolwg ar-lein-yn-gyntaf y disgwylir iddo gael ei gyflwyno o 2026-27 ymlaen. Bydd cwestiynau sy’n ymwneud â chynhwysiant digidol yn cael eu hystyried ar gyfer arolwg 2026-27, tra’n aros am brofion gwybyddol; a bydd yn seiliedig i raddau helaeth ar yr ymchwil presennol ar y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol (MDLS).

[6] Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau | LLYW.CYMRU

3.4 Mae cyfran yr oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yng Nghymru yn parhau i fod yn is nag unrhyw ranbarth arall o'r DU. Er y dylid bod yn ofalus o ystyried y meintiau bach o samplau o Gymru, mae Mynegai Digidol Defnyddwyr Lloyds Bank UK ar gyfer 2023[7] yn adrodd bod 96%o oedolion ledled y DU ar-lein[8] o gymharu â 92% ledled Cymru. Mewn geiriau eraill, mae cyfran yr oedolion nad ydynt ar-lein yng Nghymru, sef 8%, ddwywaith cyfartaledd y DU, sy'n 4%, ac yn agos at gyfran Arolwg Cenedlaethol Cymru a nodir uchod.

3.5 Mae Mynegai Digidol Defnyddwyr Lloyds Bank UK ar gyfer 2023 hefyd yn nodi bod y defnydd o'r rhyngrwyd wedi lleihau mewn gwirionedd ers 2022 (pan oedd yn 99%) oherwydd gostyngiad yn y defnydd ymhlith unigolion dros 60 oed. Er bod y defnydd cyffredinol o'r rhyngrwyd wedi lleihau, mae'r data'n awgrymu bod y rhai sydd ar-lein yn fwy ymgysylltiedig yn ddigidol a bod ganddynt sgiliau digidol mwy datblygedig. Mae'r rhai sydd â'r lefel isaf o sgiliau digidol yn fwyaf tebygol o fod yn bobl hŷn, yn ennill incwm is ac yn fenywod.

3.6 Awgryma'r adroddiad The Economic Impact of Digital Inclusion in the UK (2022)[9], a baratowyd gan y Ganolfan Ymchwil Economeg a Busnes ar gyfer y Good Things Foundation, y byddai buddsoddi mewn gwella sgiliau digidol o fudd i economi'r DU. Mae'n cyfrifo bod pob £1 a fuddsoddir mewn darpariaeth cynhwysiant digidol yn creu enillion o £9.48. Mae hyn yn gymhareb cost a budd is o gymharu â chyfrifiadau 2018, yn bennaf oherwydd cynnydd yng nghyfran y rhai 75 oed a hŷn y mae angen cymorth allanol arnynt er mwyn meithrin sgiliau digidol sylfaenol. Noda'r adroddiad fod pontio'r gagendor digidol yn flaenoriaeth frys, a bod y rhai y mae angen cymorth arnynt yn mynd yn anos eu cyrraedd. Mae'n galw am gymorth mwy dwys a pharhaus i'r rhai nad ydynt ar-lein eto[10].

[7] Consumer digital index | Lloyds Bank
[8] Yn yr ystyr eu bod wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn ystod y tri mis blaenorol
[9] The Economic Impact of Digital Inclusion the UK | Report | Good Things Foundation
[10] Ibid. tud.6

Datblygiadau polisi diweddar

3.7 Ystyriodd ein gwerthusiad proses a damcaniaeth newid (2021) y cyd-destun polisi adeg sefydlu CDC a daeth i'r casgliad fod polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymyrraeth gyhoeddus barhaus i fynd i'r afael ag allgáu digidol ymhlith grwpiau allweddol a bod angen amlwg i ymyriad ganolbwyntio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Daeth i'r casgliad hefyd fod CDC wedi mabwysiadu llawer o'r argymhellion a gynigiwyd gan werthusiadau o'r rhaglenni a'i rhagflaenodd.

3.8 Daeth ein hadroddiad interim ar y gwerthusiad o'r broses a'r canlyniadau (2022) i'r casgliad bod CDC mewn sefyllfa dda i ymateb i'r pwyslais polisi cynyddol a roddir ar gynhwysiant digidol a'r amlygrwydd cynyddol a roddir i wella gwydnwch digidol ym mholisïau Llywodraeth Cymru megis ei pholisïau Rhagolwg Cynhwysiant Digidol (2020)[11], ei Strategaeth Ddigidol i Gymru (2021)[12] a'i Raglen Lywodraethu (2021-2026)[13], ac y gallai helpu i gyflawni hynny.

Strategaeth digidol a data ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

3.9 Mae Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2023)[14], sy'n adeiladu ar Iechyd a Gofal Gwybodus: Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol (2015)[15], yn amlinellu uchelgais Llywodraeth Cymru i drawsnewid sgiliau a phartneriaethau digidol; adeiladu platfformau digidol sy'n diwallu anghenion Cymru; a gwneud gwasanaethau'n rhai digidol-yn-gyntaf.

3.10 Mae'r strategaeth yn seiliedig ar chwe chenhadaeth, ac mae tair o'r rheini'n arbennig o berthnasol i CDC:

- Cenhadaeth 1: Sgiliau digidol: datblygu sgiliau digidol y gweithlu er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i wneud y gorau o wasanaethau digidol a gwella gofal

[11] Rhagolwg cynhwysiant digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus | LLYW.CYMRU
[12] Strategaeth ddigidol i Gymru [HTML] | LLYW.CYMRU
[13] Rhaglen Lywodraethu | LLYW.CYMRU
[14] Strategaeth digidol a data ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru | LLYW.CYMRU
[15] Strategaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol digidol | LLYW.CYMRU

- Cenhadaeth 5: Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr: darparu gwasanaethau digidol o ansawdd uchel wedi'u cynllunio ar sail anghenion y dinesydd, gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau
- Cenhadaeth 6: Cynhwysiant digidol: rhoi mynediad, y sgiliau a'r hyder i ddefnyddwyr ymgysylltu â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol digidol yn seiliedig ar eu hanghenion neu ddewisiadau penodol.

3.11 O dan Genhadaeth 6, cydnabyddir y bydd buddsoddiad parhaus yn CDC yn helpu i 'roi cyfle, cymhelliant, sgiliau a hyder i bawb yng Nghymru i ymgysylltu â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd digidol'[16].

3.12 O gymharu â'r strategaeth flaenorol, mae'r Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn canolbwyntio'n gynyddol ar weithlu digidol, gwella ac arloesi, Deallusrwydd Artiffisial a chyd-ddatblygu gwasanaethau wedi'u llywio gan ymarferwyr ac sy'n seiliedig ar anghenion defnyddwyr.

Datblygiadau eraill

Adroddiad cynnydd ar gynhwysiant digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus

3.13 Mae'r adroddiad hwn[17] yn amlinellu'r cynnydd a wnaed rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2022 i helpu rhagor o bobl i ymgysylltu'n hyderus â thechnoleg ddigidol ar draws y chwe maes blaenoriaeth a amlinellir yn y ddogfen Rhagolwg Cynhwysiant Digidol (2020). Mae'n amlygu nifer o gyflawniadau CDC sydd wedi cyfrannu at wireddu'r strategaeth, gan gynnwys:

- sefydlu rhwydwaith ar gyfer sefydliadau sy'n cefnogi cymunedau Cymraeg, mewn cydweithrediad â Mentrau Iaith Cymru
- mabwysiadu dull mwy cyson o uwchsgilio staff llyfrgelloedd ledled Cymru mewn perthynas â sgiliau digidol

[16] Ibid. tud.39
[17] Adroddiad cynnydd ar gynhwysiant digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus [HTML] | LLYW.CYMRU

- cefnogi byrddau iechyd i ymgorffori cynhwysiant digidol yn eu strategaeth a'u darpariaeth e.e. datblygu strategaeth ddigidol newydd, yn dwyn y teitl 'Ein Dyfodol Digidol' yn achos Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a chymorth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF) weithredu ei Strategaeth Ddigidol
- datblygu Canllawiau Arfer Da i Ddigidol ar gyfer Cartrefi Gofal[18] i gefnogi cartrefi gofal a'u staff
- cydweithio â Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu cwrs e-ddysgu ar blatfform e-ddysgu Gofal Cymdeithasol Cymru a gall y 30,000 a mwy o staff gael mynediad ato
- comisiynu ymchwil gyda dinasyddion o gymunedau ethnig lleiafrifol i ddeall y rhwystrau a wynebir i ddod yn ddigidol hyderus a defnyddio'r canfyddiadau fel sail i brosiect peilot, Cymunedau Cysylltiedig Digidol[19]
- gweithio gyda chymdeithasau tai ledled Cymru i gefnogi tenantiaid sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, gan gynnwys hyfforddi preswylwyr fel Hyrwyddwyr Digidol a gweithredu cynlluniau benthyg dyfeisiau.

Tuag at Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol

3.14 Comisiynodd Llywodraeth Cymru brosiect i ddatblygu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Ddigidol (MDLS) i Gymru[20]. Mae'r gwaith yn adeiladu ar brosiect sy'n cwmpasu'r DU gyfan i ddatblygu Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol y DU, ac mae CDC, yn ogystal â CCDC, wedi cefnogi'r astudiaeth. Hyd yn hyn, lluniwyd dau adroddiad, adroddiad interim (2022) ac adroddiad terfynol (2023), ac mae dau brosiect peilot yn cael eu rhoi ar waith mewn partneriaeth â chymdeithasau tai. Argymhellodd yr adroddiad terfynol bod diffiniad a chynnwys yr MDLS a ddatblygwyd ar lefel y DU ar gyfer cartrefi â phlant[21] yn briodol i Gymru ac y dylid eu mabwysiadu.

[18] Cartrefi Gofal (llyw.cymru)
[19] Cymunedau Cysylltiedig – Iechyd a Lles (llyw.cymru)
[20] Tuag at Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol: adroddiad terfynol | LLYW.CYMRU
[21] Ibid. tud.6

3.15 Canfu'r adroddiad (2023)[22] fod yr elfennau a nodir yn yr MDLS yn berthnasol ac yn bwysig i deuluoedd, bod allgáu digidol ac allgáu cymdeithasol ac anghydraddoldebau cyfoeth/tlodi yn anwahanadwy, a bod fforddiadwyedd gwasanaethau digidol yn rhwystr allweddol. Canfuwyd nad oes 'un ateb sy'n addas i bawb' a bod anghenion pobl yn amrywio. Un canfyddiad allweddol yw er bod tariffau cymdeithasol band eang[23] i'w croesawu, nid ydynt yn addas at y diben o ran diwallu anghenion aelwydydd â phlant. Daw i'r casgliad y dylai'r MDLS fod yn 'fan cychwyn ar gyfer ystyried i ba raddau y mae aelwydydd penodol yn syrthio islaw safon a bennwyd yn ystyriol ac ar lefel genedlaethol' yn hytrach na bod yn 'rhestr offer a sgiliau'.

Cynhwysiant digidol yng Nghymru: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

3.16 Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad ar Gynhwysiant Digidol yng Nghymru (2023)[24] i roi trosolwg lefel-uchel o faterion sy'n berthnasol i gynhwysiant digidol yng Nghymru. Mae'n ystyried y data ar allgáu digidol a mynediad at y rhyngrwyd yn ogystal â rhwystrau i gynhwysiant digidol. Daw i'r casgliad bod cynhwysiant digidol yn 'gymhleth' ac 'nid dim ond mater o fynediad at dechnoleg' ydyw. Mae'n cydnabod y manteision yn ogystal â'r anfanteision i gyrff cyhoeddus yn gysylltiedig â symud gwasanaethau ar-lein. Mae'n cydnabod ymhellach y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn prosiectau cynhwysiant digidol, drwy CDC yn ogystal â thrwy waith y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS).

Myfyrdodau o'r gwaith maes

3.17 Er y credwyd bod y Strategaeth Ddigidol i Gymru (2021) a'i ffocws ar Gynhwysiant Digidol wedi atgyfnerthu'r angen am raglen CDC, nid oedd staff cyflawni CDC yn credu ei bod wedi cael llawer o effaith ar ymateb

[22] Tuag at y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol: safbwyntiau dinasyddion a rhanddeiliaid | LLYW.CYMRU
[23] Gall unigolion sy'n hawlio Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn neu fathau eraill o fudd-daliadau fod yn gymwys i gael tariffau band eang gostyngol
[24] Cynhwysiant digidol yng Nghymru | Archwilio Cymru

gwasanaethau cyhoeddus i gynhwysiant digidol. Fel y nododd aelod o staff un o ddarparwyr CDC:

> 'dylem fod wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn dod atom i gael cymorth a chyngor ... ond ni chafodd [y Strategaeth Ddigidol i Gymru] unrhyw effaith ar y galw [am CDC]' [aelod o staff cyflawni CDC]

3.18 Roedd staff cyflawni CDC yn croesawu'r ffaith i rôl y Prif Swyddog Digidol gael ei chyflwyno, dan adain Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), gan ei fod wedi galluogi CDC i weithio'n fwy strategol gydag awdurdodau lleol. Nododd staff cyflawni fod deiliad y swydd i bob pwrpas yn hyrwyddo CDC ymhlith awdurdodau lleol ac yn gweithredu fel pont i'r sector, gan arwain at 'un neu ddau o awdurdodau lleol yn cysylltu â ni yn dilyn eu trafodaethau gyda [enw'r swyddog].' Fodd bynnag, gadawyd bwlch yn sgil ymadawiad y sawl a benodwyd i'r swydd, ac ystyriwyd bod hyn yn gyfle a gollwyd i CDC, er i rywun gael ei benodi i'r rôl dros dro ers hynny.

3.19 Tynnodd y cyfranwyr sylw hefyd at nifer o ddatblygiadau digidol sydd wedi digwydd ar draws y sector iechyd a gofal, sydd wedi effeithio ar y dirwedd y mae CDC yn gweithredu ynddi. Er enghraifft, sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) ym mis Ebrill 2021 fel awdurdod iechyd arbennig newydd i ddisodli Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Yn 2022, llofnododd IGDC y Siarter Cynhwysiant Digidol ac ers hynny mae wedi cydweithio â CDC i sicrhau buddion iechyd digidol i gleifion a gofalwyr. Daeth swydd a swyddfa'r Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal, dan adain IGDC, yn weithredol o fis Ebrill 2022 ymlaen a’r nod yw cefnogi trawsnewidiad digidol ar draws y maes iechyd a gofal yng Nghymru. At hynny, mae CDC wedi cydweithio â Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd (DSPP) sy'n gyfrifol am Ap GIG Cymru i ddatblygu a darparu hyfforddiant i sefydliadau cymunedol sy'n gallu cefnogi pobl i ddefnyddio'r ap.

3.20 Un o'r themâu polisi allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gwaith maes oedd sut yr oedd y rhaglen CDC yn cael ei hariannu. Nodwyd bod cyllid yn dod o ddwy adran o Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, sef yr adrannau Cyfiawnder Cymdeithasol ac Iechyd, ac yn cael ei reoli gan yr adran

Cyfiawnder Cymdeithasol. Fodd bynnag, awgrymwyd y dylid ehangu'r sylfaen gyllido i gynnwys meysydd polisi ychwanegol, yn enwedig os yw Llywodraeth Cymru yn anelu at gyflawni'r MDLS. Byddai hyn yn helpu i sicrhau nad yw cynhwysiant digidol yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb i ddwy adran o Lywodraeth Cymru. Er y gallai darparu cyllid gan sawl adran achosi problemau llywodraethu i Lywodraeth Cymru, dadleuwyd y byddai gwneud hynny'n helpu cynhwysiant digidol i ddod yn amcan trawsbynciol, yn hytrach na pholisi sydd wedi'i gyfyngu i iechyd a gofal cymdeithasol:

> 'Nid problem cyfiawnder cymdeithasol yn unig mohoni – mae'n gyfrifoldeb i bawb' [sefydliad sy'n fuddiolwr]

3.21 Pwnc arall a gododd yn ystod y gwaith maes oedd datblygu polisïau cynhwysiant digidol yn Lloegr a'r Alban. Nododd y cyfranwyr ddiddordeb cynyddol mewn cynhwysiant digidol yn y ddwy wlad. Mae'r Alban, yn benodol, yn ail-lansio ei siarter ddigidol ac yn sefydlu cynghrair cynhwysiant digidol, sef Digital Inclusion Alliance tra bod swyddogion llywodraeth y DU yn edrych fwyfwy ar ddull Llywodraeth Cymru fel model ar gyfer cynhwysiant digidol ac yn datblygu cynllun gweithredu. Ceir canfyddiad cyffredinol bod Cymru ar flaen y gad yn y maes hwn, ac mae gwledydd eraill y DU yn awyddus i ddysgu o'i hymdrechion. Fodd bynnag, roedd y cyfranwyr o'r farn ei bod yn anffodus, er gwaetha'r ffaith i Lywodraeth Cymru hyrwyddo gwaith yn y maes hwn, y bu'n ofynnol iddi ystyried lleihau ei chyllid ar gyfer mentrau cynhwysiant digidol yn ddiweddar mewn ymateb i bwysau ehangach ar y gyllideb.

Mae cynghreiriau tebyg yn gweithredu ledled Lloegr a'r Alban, ond maent yn esblygu mewn gwahanol ffyrdd:

Yn yr Alban, mae Cynghrair Cynhwysiant Digidol (Digital Inclusion Alliance neu DIA) newydd yn cael ei chyflwyno a chanddi rôl debyg i CCDC er mwyn dod â sefydliadau ynghyd a chydlynu gweithgaredd, cefnogi prosiectau cydweithredol traws-sector, a dileu rhwystrau i hybu cynhwysiant digidol. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth yr Alban, sy'n chwarae mwy o ran na Llywodraeth Cymru o ran pennu cyfeiriad strategol y

Gynghrair Cynhwysiant Digidol, wedi comisiynu ymarfer cwmpasu i archwilio a diffinio blaenoriaethau.

Yn Lloegr, mae'r Digital Poverty Alliance yn elusen annibynnol. Yn fenter a arferai gael ei rhedeg gan y Learning Foundation, a lansiwyd yn 2021 ar y cyd â Currys plc a’r Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg, daeth y Digital Poverty Alliance yn frand cyhoeddus ac yn enw gweithredol ar y Learning Foundation yn 2024. Ei brif ffocws yw polisi ac eiriolaeth, ond yn ddiweddar mae wedi dechrau darparu prosiectau prawf cysyniad i fynd i’r afael â bylchau yn y dystiolaeth. Mae'r prosiectau prawf cysyniad hyn yn cael eu cefnogi gan bartneriaid yn y sector preifat fel Barclays ac Intel. Mae'n bwriadu cyflwyno cyfleoedd masnachol ac o ganlyniad, mae Cwmpas - sy'n mynychu ar ran CCDC - wedi dadymlaeodi.

4. Cynnydd yn erbyn argymhellion y gwerthusiad interim

4.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yn gryno sut y gweithredodd CDC ar yr argymhellion a gynigiwyd yn yr adroddiad ar y gwerthusiad interim o'r broses a'r canlyniadau a'r adroddiad diweddaru a gyhoeddwyd yn 2023[25].

Cynnydd yn erbyn argymhellion y gwerthusiad interim

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn y rhaglen CDC y tu hwnt i 2022, gan fod cyfiawnhad cryf dros wneud hynny o ran angen a pherfformiad y rhaglen hyd yma.

Y cynnydd a wnaed: Wedi'i roi ar waith. Cafodd cyllid y rhaglen ei ymestyn tan fis Mehefin 2025.

Argymhelliad 2: Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y rhaglen CDC mewn sefyllfa dda ac wedi'i galluogi ar lefel strategol i gefnogi'r gwaith o weithredu strategaethau digidol yn y dyfodol fel y rhai a amlinellir gan fyrddau iechyd yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig; yn ogystal â rhaglen waith y dyfodol a amlinellwyd gan y Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal. Yn yr un modd, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod CDC yn ymgysylltu'n weithredol â'r blaenoriaethau digidol a nodir yn Strategaeth y Gwasanaeth Arian a Phensiynau.

Y cynnydd a wnaed: Wedi'i roi ar waith. Mae cyllid parhaus i CDC tan fis Mehefin 2025 wedi galluogi'r rhaglen i barhau i ymgysylltu ar lefel strategol â Byrddau Iechyd a sefydliadau ambarél. Byddai mwy o ymrwymiad trawsadrannol gan Lywodraeth Cymru i Gynhwysiant Digidol wedi bod yn fuddiol.

Argymhelliad 3: Byddai CCDC yn elwa o ganolbwyntio ar a chyflawni nifer bach o flaenoriaethau allweddol dros weddill y cyfnod cyllido er mwyn dangos gwerth y gynghrair a gwneud gwahaniaeth pendant. Byddai hefyd yn elwa o sicrhau cynrychiolaeth o sefydliadau nad ydynt yn cael eu

[25] Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant | LLYW.CYMRU

cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd o bob rhan o'r meysydd iechyd, y Gymraeg, a Chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Y cynnydd a wnaed: Wedi'i roi ar waith, gyda chyfarfodydd chwarterol CCDC yn canolbwyntio ar un o'r pum maes blaenoriaeth a nodir yn ei strategaeth o Gynhwysiant i Wydnwch, ac ehangu ei aelodaeth dros amser, er bod angen cynrychiolaeth ehangach o hyd.

Argymhelliad 4: Os na fydd y rhaglen CDC yn cael ei hariannu ar ôl 2022, mae angen ystyried cynaliadwyedd hirdymor CCDC ar unwaith. Beth bynnag a ddigwydd, mae angen i CCDC ymchwilio i sut y gallai barhau â'i gwaith yn y dyfodol.

Y cynnydd a wnaed: Ddim yn berthnasol o ystyried yr estyniad i'r cyllid, ond yn parhau i fod yn berthnasol ar ôl 2025.

Argymhelliad 5: Mae angen i CDC flaenoriaethu ac ystyried sut y gall ymgysylltu'n well â'r sector preifat, gan ymchwilio i ddulliau eraill lle y bo'n bosibl e.e. drwy undebau llafur i gyrraedd gweithwyr yn y sector preifat.

Y cynnydd a wnaed: Wedi'i roi ar waith, ond heb fawr o lwyddiant. Argymhelliad ddim yn berthnasol mwyach yn wyneb newidiadau i'r cytundeb cyllido.

Argymhelliad 6: Dylai CDC adeiladu ar ei ddull llwyddiannus o weithio ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, drwy fapio a chysylltu â sefydliadau ambarél a sefydliadau aelodaeth cenedlaethol y gallai ymgysylltu â nhw, gan gynnwys mewn sectorau eraill lle y bo'n briodol.

Y cynnydd a wnaed: Wedi'i roi ar waith, fel y dangoswyd drwy waith y rhaglen gyda phartneriaid fel Gofal Cymdeithasol Cymru, AaGIC a CLILC.

Argymhelliad 7: Dylai CDC barhau i ddatblygu a darparu ei hatebion pwrpasol ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg a blaenoriaethu ei dull o ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill.

Y cynnydd a wnaed: Wedi’i roi ar waith, gyda dull thematig bellach yn cyrraedd cynulleidfaoedd eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, megis cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Argymhelliad 8: Dylai CDC fyfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o'i ddull o fenthyca cyfarpar yn ystod y pandemig, ac yn y dyfodol sicrhau mai dim ond fel rhan o becyn cymorth ehangach i sefydliadau ac unigolion y bydd cyfarpar digidol ar gael yn hytrach nag ar eu pen eu hunain.

Y cynnydd a wnaed: Wedi'i roi ar waith. Mae cyfarpar yn cael ei fenthyg ar sail tymor byr i sefydliadau sy'n derbyn cymorth, gyda'r bwriad o fuddsoddi eu hunain yn dilyn y peilot.

Argymhelliad 9: Mae angen i CDC ystyried sut y gall gynnig rhaglen gyfunol o hyfforddiant digidol dros weddill y cyfnod cyflawni, gan edrych lle y bo'n bosibl ar gynhyrchu adnoddau rhithwir y gellir eu hariannu gan sefydliadau partner ar ôl i'r rhaglen ddod i ben.

Y cynnydd a wnaed: Wedi'i roi ar waith, gyda mwy o ffocws yn ddiweddar ar ddarpariaeth rithwir yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

Y cynnydd a wnaed yn erbyn y materion i'w hystyried a nodwyd yn adroddiad blynyddol 2023

Mater i’w hystyried 1: Dylai DPA 4 gynnwys y gyfran neu'r nifer ofynnol o staff o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol i'w cefnogi.

Y cynnydd a wnaed: Er na roddwyd sylw penodol iddo, bu cynnydd nodedig yn nifer a chyfran y staff o'r sectorau hyn a gefnogir.

Mater i’w hystyried 2: Dylid lleihau targedau DPA 2 ar gyfer gwirfoddolwyr.

Y cynnydd a wnaed: Ers hynny mae'r targedau o ran gwirfoddolwyr wedi cael eu dileu o'r rhaglen.

Mater i’w hystyried 3: Dylid llunio cynllun gweithredu ar gyfer sut y dylid datblygu DPA 3, i weithio gyda'r sector preifat.

Y cynnydd a wnaed: Ni weithredwyd ar hyn, ac ers hynny dilewyd y targed o'r rhaglen.

Mater i’w hystyried 4: Dylid casglu data arolwg o ganlyniadau mwy cyson ar gyfer y sefydliadau a gefnogir.

Y cynnydd a wnaed: Nid oedd hyn wedi cael ei roi ar waith, ac mae'n parhau i fod yn wir bod data arolygon canlyniadau gwahanol wedi'u casglu dros amser.

5. Newidiadau a datblygiadau diweddar i ofynion cyflawni'r rhaglen

5.1 Mae’r bennod hon yn ystyried rhai o’r datblygiadau a’r newidiadau allweddol sydd wedi digwydd ers paratoi ein hadroddiad ar y gwerthusiad o'r broses a'r canlyniadau yn 2021, ac effaith y rhain ar gyflawni’r rhaglen. Mae’n seiliedig ar ddogfennaeth allweddol, yn ogystal â chyfweliadau â staff y rhaglen a swyddogion Llywodraeth Cymru.

Newidiadau i'r contract

5.2 Yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023, cynigiwyd gostyngiad o 50% yng ngweddill cyllideb CDC o fis Ebrill 2024 ymlaen. Rhannwyd y gostyngiad yn gyfartal ar draws cyfarwyddiaethau cyfiawnder cymdeithasol ac iechyd Llywodraeth Cymru. Roedd y cyhoeddiad hwn yn annisgwyl a chreodd lawer o ansicrwydd ymhlith staff y rhaglen a thensiynau yn y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a phrif ddarparwr y contract. Bu'n rhaid i Cwmpas roi hysbysiadau diswyddo i staff y rhaglen gan ei fod yn rhagweld y byddai angen lleihau'r gofynion staffio yn sylweddol o ganlyniad. Cytunwyd ar gynllun cyflawni newydd CDC erbyn diwedd Ionawr 2024, a fabwysiadodd ddull mwy thematig o ddarparu cymorth i grwpiau blaenoriaeth. Cafodd rhai darpariaethau, megis gwaith CDC gyda gwirfoddolwyr, cefnogi'r defnydd o ap newydd y GIG a gwaith gyda'r sector preifat, eu dileu hefyd.

5.3 Fodd bynnag, yng ngoleuni'r cynnydd yn y cyllid gan Lywodraeth y DU i Gymru, adferodd Llywodraeth Cymru y gyllideb wreiddiol o £2 filiwn ar gyfer CDC erbyn diwedd mis Chwefror 2024 a chafodd holl staff y rhaglen eu cadw. Diwygiwyd y rhaniad cyfrannol rhwng y cyfarwyddiaethau cyfiawnder cymdeithasol ac iechyd, gyda 75% o'r cyllid (£1.5 miliwn) yn dod o'r gyfarwyddiaeth cyfiawnder cymdeithasol a 25% (£0.5 miliwn) wedi'i ddyrannu o'r gyfarwyddiaeth iechyd. Er gwaethaf hyn, cytunodd Llywodraeth Cymru na fyddai darpariaeth y rhaglen yn lleihau ei ffocws ar y sector iechyd o ganlyniad i’r newid mewn cyllid. Cytunwyd hefyd y byddai CDC yn cadw'r dull thematig newydd o gyflawni'r rhaglen, a amlinellir yn y cynllun cyflawni diwygiedig. Cafodd rhai darpariaethau allweddol blaenorol,

megis gwaith y rhaglen ar ap y GIG a gwirfoddoli, eu hadfer ond nid felly elfennau eraill, yn enwedig gwaith CDC gyda'r sector preifat ac Arwyr Digidol. Er bod Llywodraeth Cymru yn dymuno cadw'r fenter Arwyr Digidol gan ei bod yn cael ei hystyried yn elfen o'r rhaglen a fyddai'n cael effaith gadarnhaol, teimlai aelodau'r tîm cyflawni nad oedd ganddynt y capasiti i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r fenter wyneb yn wyneb.

5.4 O dan y trefniadau cyllido newydd, nid yw un o'r partneriaid cyflawni, sef Prifysgol Abertawe, yn derbyn cyllid ar gyfer y rhaglen mwyach, ond mae wedi parhau i ymwneud â CDC yn wirfoddol.

5.5 Mae cynllun cyflawni diwygiedig CDC y cytunwyd arno ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024 i Fehefin 2025 yn seiliedig ar saith gweithgaredd ar themâu penodol, fel a ganlyn:

- Iechyd – dinasyddion sydd wedi'u cynnwys yn ddigidol ac sydd wedi'u grymuso
- Iechyd – gweithlu sy'n hyderus wrth ddefnyddio technoleg ddigidol i alluogi gofal effeithlon, diogel o safon
- Gofal cymdeithasol – gweithlu sy'n hyderus wrth ddefnyddio technoleg ddigidol i alluogi gofal effeithlon, diogel o safon
- Tai cymdeithasol – gweithlu sy'n ddigidol hyderus sy'n gallu cefnogi tenantiaid
- Pobl hŷn – poblogaeth hŷn sy'n hyderus o ran cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau cyhoeddus ar-lein
- Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol – rhoi'r galluoedd, y cyfleoedd a'r cymhellion i gymunedau amrywiol ymgysylltu'n llawn â gwasanaethau ar-lein a thechnoleg ddigidol
- Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol – rhoi'r galluoedd, y cyfleoedd a'r cymhellion i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymgysylltu'n llawn â gwasanaethau ar-lein a thechnoleg ddigidol.

5.6 Mae cynllun cyflawni diwygiedig CDC ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024 i Fehefin 2025 hefyd yn cynnwys set ddiwygiedig lai o DPA a thargedau canlyniadau,

sy'n adlewyrchu'r dull thematig sy'n cael ei fabwysiadu. Mae'r rhaglen bellach yn gweithio tuag at dri, yn hytrach na phedwar, DPA a chanlyniad. Mae'r targedau DPA hefyd yn is o gymharu â chyfnodau cyflawni blaenorol i adlewyrchu cyfnod dirwyn y rhaglen i ben a'i chau a ddisgwylir dros dri mis olaf y rhaglen. Nodir y rhain yn Nhablau 5.1 a 5.2.

Tabl 5.1: Dangosyddion perfformiad allweddol (Ebrill 2024 i Fehefin 2025)

Nifer	Dangosyddion perfformiad allweddol	Targed
1	Pobl yn cael eu cefnogi'n anuniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a hyder)	16,660
2	Staff yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a hyder)	1,000
3	Cefnogaeth i sicrhau perchnogaeth o gynhwysiant digidol gan randdeiliaid a chleientiaid	6

Tabl 5.2: Canlyniadau'r rhaglen (Ebrill 2024 i Fehefin 2025)

Nifer	Canlyniadau'r rhaglen
1	Pobl yn meddu ar ddigon o sgiliau digidol sylfaenol a hyder i allu cefnogi pobl sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol i ymgysylltu'n ddigidol (a chyda gwasanaethau digidol) yn eu bywydau beunyddiol a'u bywydau gwaith
2	Mwy o bobl yn defnyddio technoleg i reoli eu hiechyd (corfforol a meddyliol) a'u llesiant yn annibynnol
3	Cynnydd mewn perchnogaeth o gynhwysiant digidol gan randdeiliaid a chleientiaid

5.7 Awgryma adborth gan staff cyflawni'r rhaglen fod llawer iawn o adnoddau rheoli CDC wedi'u defnyddio i ymdrin â'r newidiadau cytundebol hyn ac ymateb iddynt. Ymhellach, effeithiwyd yn negyddol ar forâl a llesiant staff cyflawni yn sgil cael hysbysiadau diswyddo. Cododd y toriad yn y cyllid gwestiynau hefyd am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r agenda cynhwysiant digidol sydd wedi achosi ansicrwydd ymhlith staff a sefydliadau partner ynghylch y dyfodol.

5.8 Arweiniodd y toriadau arfaethedig yn y cyllid at ymateb negyddol gan sefydliadau partner, sy'n dangos y gwerth a roddir ar y rhaglen gan y

cyfranwyr hyn. Eglurodd sawl un a gyfwelwyd ei fod wedi cefnogi parhau â CDC e.e. drwy ysgrifennu at y Gweinidogion a chyflwyno'r achos dros adfer y cyllid; ac roedd hyn yn adleisio profiad swyddogion Llywodraeth Cymru:

> 'roedd hynny'n [torri'r cyllid] gam gwag' [sefydliad a gefnogwyd]
>
> 'cawsom ein lobïo'n galed ... mae hynny'n glod i enw da CDC' [swyddog Llywodraeth Cymru]

5.9 Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r symudiad tuag at ddull thematig wedi cael ei groesawu ac wedi arwain at nifer o fanteision. Un o'r goblygiadau allweddol yw bod uwch staff y rhaglen wedi ysgwyddo cyfrifoldebau cenedlaethol yn hytrach na rhai rhanbarthol. Mae'r newid hwn wedi eu galluogi i weithio ar draws sectorau penodol, megis y meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, neu dai, gan feithrin dealltwriaeth fwy cyson o'r materion a wynebir a chynnig cymorth mwy unffurf i'r sectorau hyn. Mae'r rhaglen hefyd wedi addasu ei dyraniad adnoddau i bob maes thematig, gan gydnabod bod rhai themâu (e.e. iechyd) yn arbennig o eang a chymhleth, tra bod eraill (e.e. tai) yn fwy cyfyngedig, ac mae perthnasoedd sefydledig eisoes ar waith. Yn ogystal â hynny, mae hyn wedi gwella'r adroddiadau i Lywodraeth Cymru, gan fod adroddiadau cynnydd bellach yn rhoi mwy o eglurder ar waith a chyflawniadau'r sector.

Effaith barhaus COVID-19

5.10 Effaith bwysig arall a welwyd gan staff cyflawni'r rhaglen CDC yw effaith barhaus y pandemig ar agweddau tuag at fabwysiadu technoleg ddigidol ymhlith sefydliadau targed. O ganlyniad, bu angen i'r rhaglen roi llai o bwyslais dros amser ar ddarbwyllo sefydliadau, yn enwedig yn y sector iechyd, i ymgysylltu â'r agenda cynhwysiant digidol. Fel y dywedodd un aelod o staff:

> 'Mae wedi dod yn haws i guro ar eu drws ... mae sefydliadau yn ei ddeall erbyn hyn' [staff cyflawni CDC]

Symud tuag at ganolbwyntio ar ganlyniadau

5.11 Roedd staff cyflawni CDC yn gwerthfawrogi'r newid a digwyddodd o ran canolbwyntio ar ganlyniadau'r rhaglen, a chredwyd bod llai o bwyslais ar

allbynnau'r rhaglen wedi helpu i wella ansawdd y ddarpariaeth. Cyfeiriwyd yn rheolaidd yn ystod y cyfweliadau at fodel Damcaniaeth Newid y rhaglen, gan awgrymu bod hwn yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ac yn sail i adroddiadau'r rhaglen.

Ymateb i'r cynnydd mewn costau byw

5.12 Thema allweddol a gododd yn ystod y gwaith maes oedd y cynnydd mewn costau byw. Awgrymodd staff cyflawni'r rhaglen CDC fod yr hyfforddiant a ddarparwyd drwy'r rhaglen wedi gallu mynd i'r afael â'r mater hwn drwy roi mwy o bwyslais ar wasanaethau digidol at ddibenion arbed costau.

6. Pa mor effeithiol y gweithredwyd y rhaglen

6.1 Mae’r bennod hon yn ystyried pa mor effeithiol y gweithredwyd y rhaglen ers 2021, gan gynnwys gweithgaredd cyfathrebu a marchnata Cymunedau Digidol Cymru (CDC); ymgysylltiad â grwpiau targed a sefydliadau partner; ymgysylltiad â'r sector preifat; a darpariaethau allweddol y rhaglen. Mae’n seiliedig ar farn staff cyflawni’r rhaglen, swyddogion Llywodraeth Cymru a, lle y bo’n briodol, sefydliadau a gefnogwyd.

Pa mor effeithiol oedd y model gweithredu

6.2 Ystyriwyd bod model cyflawni CDC yn briodol ar y cyfan adeg ein gwaith maes, a chyfeiriwyd yn rheolaidd at gysondeb hirdymor, arbenigedd ac angerdd tuag at gynhwysiant digidol ymhlith y staff cyflawni. Dywedodd y cyfranwyr hefyd fod tîm yr Uned Cynhwysiant Digidol yn Llywodraeth Cymru yn wybodus ac yn ymroddedig i’r agenda cynhwysiant digidol; ac yn effeithiol wrth bledio achos y rhaglen. Fel yn y cyfnod interim, roedd staff y rhaglen o'r farn bod y berthynas ag Uned Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol, ac fel arall, er gwaethaf yr anawsterau a gafwyd o ganlyniad i'r penderfyniad i dorri cyllid CDC.

Pa mor effeithiol oedd y cyfathrebu a'r marchnata

6.3 Parhaodd CDC i gael ei hyrwyddo drwy amrywiaeth o ddulliau dros y cyfnod 2021 i 2024. Mae'r wefan wedi esblygu dros amser ac mae'n cynnwys ystod eang o astudiaethau achos, diweddariadau newyddion yn ogystal ag adnoddau defnyddiol. Parhaodd CDC hefyd i fod â phresenoldeb cryf ar y cyfryngau cymdeithasol a dosbarthwyd cylchlythyr CDC yn rheolaidd. Gwnaed ymdrechion hefyd i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt ar-lein, megis drwy erthyglau misol ar gynhwysiant digidol mewn Papurau Bro[26]. Awgryma'r adroddiad cynnydd chwarterol diweddaraf (Ebrill i Fehefin 2024) fod llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o’r wefan, gyda thros 4,000 o ddefnyddwyr yn ymweld â hi yn ystod y chwarter hwnnw.

[26] Cylchlythyrau cymunedol lleol Cymraeg, a gynhyrchir gan wirfoddolwyr ac a gyhoeddir yn fisol yn gyffredinol.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod CDC wedi creu 46 o drydariadau yn ystod y chwarter.

6.4 Drwy waith eirioli cryfach gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, a CLILC drwy'r Prif Swyddog Cynhwysiant Digidol yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhaglen CDC wedi gallu cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynhwysiant digidol a hyrwyddo ei gwasanaethau'n fwy effeithiol i dargedu sefydliadau. Disgrifiodd un aelod o staff cyflawni'r rhaglen hyn fel 'mwy o gydberchnogaeth' o gynhwysiant digidol a nododd un arall fod y sefydliadau hyn bellach yn 'deall cynhwysiant digidol ac yn arwain drwy esiampl.' Mae'r cymorth cynyddol hwn wedi galluogi'r rhaglen CDC i hyrwyddo ei gwasanaethau'n fwy effeithiol a darparu rhai elfennau ar y cyd i sefydliadau o fewn yr un sector.

6.5 Roedd cydnabyddiaeth eang bod CDC wedi ymsefydlu yn llwyddiannus fel corff cydgysylltu strategol a bod brand CDC bellach yn cael ei gydnabod yn eang a'i werthfawrogi'n fawr.

6.6 Mae hefyd yn werth nodi bod negeseuon y rhaglen i sefydliadau wedi newid yn ddiweddar, a bod y bwriad i gau CDC o fis Mehefin 2025 ymlaen yn cael ei ddefnyddio gan bartneriaid cyflawni i annog sefydliadau i ymgorffori cynhwysiant digidol yn eu gwaith strategol. Fodd bynnag, awgrymodd rhai sefydliadau a gefnogwyd eu bod yn dibynnu ar CDC i helpu i fodloni eu gofynion hyfforddiant sgiliau digidol, a byddai dileu'r ddarpariaeth yn gadael bwlch yn y cymorth sydd ar gael iddynt.

Ymgysylltu â phedwar grŵp targed o fuddiolwyr

6.7 Mae CDC wedi parhau i ymgysylltu â'r un pedwar grŵp targed, gan mai dyma'r rhai sy'n parhau i gael eu nodi o fewn setiau data cenedlaethol fel y rhai sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ddigidol. At ei gilydd, roedd staff cyflawni'r rhaglen a swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod cynnydd da wedi'i wneud gyda phob un o'r pedwar grŵp targed ac amlinellir enghreifftiau o'r gwaith hwn ym Mhennod 8.

6.8 Un thema a gododd yn rheolaidd yn ystod y gwaith maes oedd yr angen i sicrhau bod y gyfran fach, ond digyfnewid, o bobl sy'n parhau i fod wedi'u

hallgáu’n ddigidol yn gyfan gwbl yng Nghymru yn cael eu cyrraedd yn well. Cydnabuwyd nad rhaglen genedlaethol, a ddarperir yn bennaf ar sail rithwir, o reidrwydd oedd y dull mwyaf addas i gyrraedd a chefnogi carfan o'r fath. Byddai gwneud hynny yn gofyn am adnoddau lleol, llawer dwysach i weithio gydag unigolion wyneb-yn-wyneb ac yn barhaus.

Gweithredu mewn ffordd fwy strategol

6.9 Neges allweddol o'n gwaith maes oedd bod CDC wedi gallu gweithredu'n fwy strategol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda'i sefydliadau targed ac wedi helpu i hwyluso prosiectau cydweithredol lleol a rhanbarthol.

6.10 Mae’r ymgysylltu hwn yn aml wedi cael ei hwyluso neu ei gefnogi gan gyrff allweddol fel Gofal Cymdeithasol Cymru, CLILC ac AaGIC. Er enghraifft, creodd CDC fodiwlau hyfforddi i'w cynnwys ar blatfform hyfforddi Gofal Cymdeithasol Cymru a chydweithiodd ag AaGIC i ddatblygu cymwyseddau cynhwysiant digidol priodol i'w cynnwys yn ei fframwaith cymhwysedd ar gyfer y sector iechyd. Mae’r rhaglen hefyd wedi gweithio’n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Cydnabu'r cyfranwyr rôl Cyfarwyddwr Rhaglen CDC o ran sicrhau bod y rhaglen yn cadw'r ffocws strategol hwn.

6.11 Cafwyd dwy enghraifft lle roedd CDC yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith rhwydweithiau cynhwysiant digidol lleol neu ranbarthol. Mewn un awdurdod lleol, roedd cynghorydd CDC yn cefnogi tîm awdurdod lleol trawsadrannol a fynychwyd gan staff o'r meysydd tai, llyfrgelloedd, gwasanaethau cymunedol ac addysg. Dros amser, mae'r rhwydwaith hwn wedi ehangu i gynnwys sefydliadau allanol megis sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r rhwydwaith yn cynorthwyo cydweithio, yn rhannu arferion da ac yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddyblygu gwasanaethau.

6.12 Yn yr un modd, credwyd bod CDC yn chwarae rhan allweddol o ran helpu i gydgysylltu gwaith rhwng gwahanol adrannau o Lywodraeth Cymru. Roedd un enghraifft o’r fath yn ymwneud â chymorth i geiswyr lloches, a roddwyd ar waith pan roddodd y Swyddfa Gartref y gorau i ddarparu cymorth ar gyfer cysylltedd band eang i geiswyr lloches ledled y DU. Yn yr achos penodol hwn, cefnogodd CDC drafodaethau rhwng amrywiol dimau polisi

Llywodraeth Cymru megis arweinwyr polisi lloches, y tîm seilwaith a'r tîm Cynhwysiant Digidol, yn ogystal â phartneriaid allanol fel CCDC a'r Good Things Foundations (fel rhan o'u cylch gwaith fel yr arweinydd ar gyfer y Banc Data Cenedlaethol):

> 'Mae hynny'n arwydd o aeddfedrwydd - o ran gwneud y cysylltiadau hynny a chydgysylltu. Mae'n enghraifft dda arall o rywbeth sy'n digwydd pan fyddwch yn buddsoddi yn y seilwaith meddal o rwydweithiau a chynghreiriau a sefydliadau.' [staff cyflawni CDC]

Mwy o ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol

6.13 Mynegodd staff y rhaglen a sefydliadau astudiaethau achos agwedd gadarnhaol ynghylch y cynnydd mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynhwysiant digidol ymhlith sefydliadau partner yn ddiweddar, gan briodoli llawer o'r cynnydd hwn i ymdrechion cyfathrebu CDC. Nododd staff CDC newid sylweddol yn agweddau sefydliadau partner tuag at ymgorffori arferion cynhwysiant digidol, gyda'r dulliau hyn bellach yn cael eu cymhwyso'n fwy cyffredin ar draws eu hamrywiol adrannau. Yn ogystal, mae llawer o sefydliadau wedi penodi rheolwyr neu gydlynwyr cynhwysiant digidol i hyrwyddo'r gwaith hwn.

6.14 Roedd yna hefyd hyder cyffredin bod CDC wedi helpu i godi ymwybyddiaeth yn llwyddiannus am gynhwysiant digidol ymhlith sefydliadau cenedlaethol, ar lefel ambarél o ganlyniad i'r rôl gydgysylltu yr oedd wedi'i mabwysiadu. Roedd cynhwysiant digidol yn cael ei drafod yn fwy cyffredin gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru er enghraifft, ac roedd y sefydliad hwn wedi ymrwymo i'r Siarter Cynhwysiant Digidol. Mae'r newid hwn wedi cymryd amser ond mae'n dystiolaeth bod y ffaith bod y rhaglen yn dadlau'r achos dros gynhwysiant digidol dros gyfnod o chwe blynedd wedi bod yn effeithiol:

> 'Rydym yn clywed yn gyson gan y maes iechyd am gynhwysiant digidol…Mae cynhwysiant digidol yn cael ei grybwyll a'i drafod. Mae CDC wedi bod yn dweud ei bod yn cymryd blynyddoedd i adeiladu [y momentwm] hwn…ym mlwyddyn chwech mae'n dechrau dwyn ffrwyth' [un o swyddogion Llywodraeth Cymru]

Mwy o ymgysylltu gan fyrddau iechyd

6.15 Nododd staff cyflawni’r rhaglen yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru welliant amlwg ym mherthynas CDC a’r lefelau ymgysylltu â byrddau iechyd, a thynnwyd sylw at nifer o berthnasoedd gwaith rhagorol adeg ein gwaith maes. Credwyd bod y gwelliant hwn i'w briodoli i ddau ffactor allweddol: yr amser y mae'n ei gymryd i feithrin perthnasoedd o fewn sefydliadau mawr, cymhleth fel byrddau iechyd, sy'n aml yn cael ei rwystro gan drosiant staff uchel; ond hefyd y gwaith a wnaed gan swyddogion Llywodraeth Cymru i annog byrddau iechyd i ymgysylltu â chynhwysiant digidol a CDC.

> 'Mae wedi cymryd yr holl amser, tan nawr, i ymgysylltu'n llawn a siarad â'r sector. Mae’n sector mor enfawr ac amlweddog’ [staff CDC]

6.16 Wrth gyfeirio at ei waith gyda’r sector iechyd, dywedodd un aelod o staff:

> 'Mae wedi tyfu neu rydym wedi llwyddo i gynnal perthnasoedd. Mae hynny’n hollbwysig i’r hyn a wnawn. Meithrin ymddiriedaeth dros amser fel bod sefydliadau’n gweld ein bod yn bartner cyflawni da a’n bod yn cyflawni gydag uniondeb. Rydym wedi cryfhau'r perthnasoedd hynny.' [staff CDC]

6.17 Mae’n ymddangos bod ymgysylltu â byrddau iechyd yn gweithio’n dda pan fydd cynhwysiant digidol wedi’i ymgorffori ar draws y sefydliad, er enghraifft pan fo byrddau iechyd yn cyflogi hyrwyddwyr cynhwysiant digidol a phan fydd cynhwysiant digidol yn cael ei ystyried o’r cychwyn cyntaf wrth ddylunio rhaglenni neu wasanaethau.

Ymgysylltu â’r sector preifat

6.18 Roedd consensws cyffredinol bod gwaith CDC gyda'r sector preifat, nes iddo gael ei ddileu o'r rhaglen gyflawni ym mis Ebrill 2024, wedi bod yn un o agweddau lleiaf llwyddiannus y fenter. Nododd staff cyflawni a swyddogion Llywodraeth Cymru fod y maes hwn wedi bod yn heriol, gan fod Cwmpas, sefydliad sy’n canolbwyntio’n bennaf ar y trydydd sector, wedi cael trafferth ymgysylltu â’r sector preifat. Dywedodd y staff cyflawni nad oedd yr elfen hon o reidrwydd yn cyd-fynd yn dda ag elfennau eraill y rhaglen, a bod darpariaethau eraill, megis Busnes Cymru, eisoes yn mynd

i'r afael ag anghenion y sector preifat, yn enwedig Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau). Mynegodd swyddogion Llywodraeth Cymru rywfaint o rwystredigaeth nad oedd y maes hwn wedi bod yn fwy llwyddiannus o ystyried ei fod yn ofyniad penodol a nodir yn y fanyleb gyflawni a bod rhai aelodau o'r CCDC yn dod o'r sector preifat, ac eto nid oedd eu cyfranogiad wedi arwain at ganlyniadau mwy pendant. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn credu bod CDC wedi colli cyfle i ymchwilio i sut y gallai'r sector preifat fod wedi cyfrannu at gyflawni'r rhaglen drwy gefnogi cymunedau megis drwy wirfoddoli amser y staff neu roi technoleg yn rhodd iddynt.

Hyfforddiant

6.19 Yn ddiweddar, mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu'n rhithwir fel mater o drefn, oni bai bod achos busnes yn cael ei wneud i gyfiawnhau darpariaeth wyneb-yn-wyneb, gan ei fod yn llawer mwy effeithlon ac effeithiol fel dull o ledaenu gwybodaeth ac arbenigedd. Er gwaethaf y ffaith nad yw'r gyllideb wedi newid, mae'r symudiad tuag at ddarpariaeth ar-lein hefyd wedi'i ysgogi gan gostau gweithredu uwch a'r angen i gadw o fewn cyllideb y rhaglen.

6.20 Mae darpariaeth wyneb-yn-wyneb yn parhau ar gyfer hyfforddi cymunedau penodol, megis grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn ogystal â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae sesiynau wyneb-yn-wyneb hefyd yn parhau mewn sefyllfaoedd lle y mae angen defnyddio ac arddangos y cyfarpar digidol yn ymarferol, megis gyda chlustffonau realiti rhithwir neu seinyddion clyfar.

6.21 Nododd staff cyflawni CDC fod darpariaeth wyneb-yn-wyneb yn tueddu i fod yn ddefnydd aneffeithlon o'u hamser. Er enghraifft, roedd staff CDC yn arfer treulio amser mewn meddygfeydd yn dangos i gleifion sut i ddefnyddio ap GIG Cymru, ond roedd y niferoedd bach a fanteisiodd ar hynny yn golygu bod hyn yn ddefnydd aneffeithiol o adnoddau. Mae adborth a gasglwyd gan sefydliadau a rhai buddiolwyr a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad yn dangos eu bod yn dal i werthfawrogi darpariaeth wyneb-yn-wyneb, gan fod hynny'n galluogi'r rhai sydd â'r lefelau isaf o hyder digidol i ymgysylltu'n fwy effeithiol.

6.22 Mae CDC wedi parhau i gynnal sesiynau hyfforddi pwrpasol i sefydliadau a sesiynau sy'n agored i bawb. Caiff hyfforddiant pwrpasol ei deilwra ar sail archwiliadau sgiliau, ac mae sefydliadau'n gyfrifol am hyrwyddo'r sesiynau a sicrhau presenoldeb y staff. Mae rhai sesiynau hyfforddi hefyd wedi'u cynnal ar y cyd â sefydliadau fel y Gwasanaeth Arian a Phensiynau a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). O fis Ebrill 2024 ymlaen, roedd mwy o ffocws i gynnwys y sesiynau hyn, gyda phwyslais cynyddol ar hyfforddiant i Hyrwyddwyr Digidol, yn ogystal â phynciau fel Deallusrwydd Artiffisial a diogelwch ar-lein. Dros amser, mae'r rhaglen wedi blaenoriaethu hyfforddi Hyrwyddwyr Digidol, gyda'r disgwyliad y bydd yr unigolion hyn yn trosglwyddo eu sgiliau a'u gwybodaeth i eraill yn eu gweithlu neu yn eu cymuned.

Fel rhan o'n gwerthusiad, fe wnaethom arsylwi sesiwn hyfforddi rithwir CDC ar Ddeallusrwydd Artiffisial i staff Bwrdd Iechyd.

Daeth nifer dda i'r sesiwn, sef 14 o gyfranogwyr, er bod y rhan fwyaf wedi diffodd eu camerâu ac yn rhyngweithio'n bennaf drwy swyddogaeth sgwrsio Microsoft Teams. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial i ymgysylltu â phobl a chreu cynnwys, gan gwmpasu offer fel ChatGPT, Midjourney, Runway, Haiper, Speechify, a Microsoft Co-Pilot. Er gwaethaf rhai anawsterau technegol, dangosodd yr hyfforddwr arbenigedd cryf a chyflwynodd sesiwn ddiddorol a gafodd ei chroesawu'n frwd gan y cyfranogwyr.

6.23 Mae gweithlu'r byrddau iechyd wedi manteisio ar gyfran gynyddol o hyfforddiant CDC dros y blynyddoedd diwethaf. Un mater allweddol a godwyd gan staff cyflawni a chynrychiolwyr byrddau iechyd yw y gall presenoldeb fod yn isel ymhlith ymarferwyr y sector iechyd, oherwydd pwysau gwaith. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd cyfiawnhau parhau â sesiynau wyneb-yn wyneb, er enghraifft, pan mai dim ond llond llaw o staff fyddai'n dod i sesiwn galw heibio ddigidol.

6.24 Awgryma'r adborth gan sefydliadau a gyfwelwyd y byddai byrddau iechyd yn gwerthfawrogi mwy o hyfforddiant yn seiliedig ar waith. Awgrymodd cynrychiolwyr o un bwrdd iechyd hefyd y gallai'r enghreifftiau a

ddefnyddiwyd ar draws sesiynau hyfforddi fod yn fwy amrywiol, gan fod rhywfaint o'r cynnwys yn cael ei ailadrodd rhwng sesiynau. Roeddent hefyd yn pryderu bod ehangder yr hyfforddiant a oedd ar gael iddynt wedi mynd yn fwy cyfyngedig ers i'r dull thematig gael ei fabwysiadu gan CDC ac mai dim ond deg math o fodiwlau hyfforddi y gall CDC eu cyflwyno'n rhithwir sydd ar gael iddynt ddewis ohonynt bellach.

Rheoli dyfeisiau a chysylltedd

6.25 Parhaodd CDC i fenthyg cyfarpar i sefydliadau, yn bennaf er mwyn treialu dyfeisiau newydd gyda staff a chleientiaid; gyda'r bwriad eu bod wedyn yn buddsoddi mewn adnoddau tebyg eu hunain, ar ôl dangos eu heffeithiolrwydd. Mae cyfarpar megis clustffonau realiti rhithwir (VR) a seinyddion clyfar wedi bod yn effeithiol, ac mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus ar draws y sector iechyd e.e. mewn ceginau ac ystafelloedd gwely ffug i staff galwedigaethol eu profi. Mae cyfarpar a fenthycwyd i gartrefi gofal bellach yn dod i ddiwedd ei oes, a bydd y dyfeisiau hyn yn cael eu rhoi i gartrefi gofal fel rhodd.

6.26 Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut y mae CDC wedi benthyg cyfarpar digidol i wahanol fathau o sefydliadau:

Benthycwyd dyfeisiau digidol i Fosg Abertawe[27] i archwilio sut y gellid gwella'r arlwy cynhwysiant digidol yno. Benthycodd CDC liniaduron am gyfnod o chwe mis a oedd yn galluogi staff i gael mynediad at hyfforddiant mewnol i ddysgu am blatfformau Google fel Google Drive, er mwyn cadw dogfennau a chynnwys yn fwy diogel ar blatfform storio yn y cwmwl. Defnyddiwyd y gliniaduron hefyd i gyflwyno gwersi mwy diddorol i bobl ifanc a oedd yn mynychu sesiynau dysgu dyddiol yn y Mosg, a chafodd 72 o bobl ifanc fudd ohonynt. Ar ddiwedd cyfnod y benthyciad, buddsoddodd y Mosg mewn dwsin o Chromebooks newydd a chyflwyno offer digidol eraill, megis byrddau gwyn rhyngweithiol electronig a system PA.

[27] Benthyciad dyfais yn ysbrydoli Mosg Abertawe i fuddsoddi mewn digidol (llyw.cymru)

Benthycwyd dyfeisiau digidol i Glinig Caswell ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe, sy'n uned iechyd meddwl[28]. Sicrhawyd bod clustffon realiti rhithwir gyda dyfeisiau iPad, Chromebook a llechen ar gael i gleifion a chawsant gymorth gan y staff i gael mynediad at y dechnoleg. Cafodd y cleifion gymorth i ddefnyddio e-bost ac ymgymryd â thasgau bob dydd ar-lein, yn ogystal â defnyddio'r cyfarpar i ymlacio ac ar gyfer hobïau. Defnyddiwyd y penset VR i ddarparu profiadau teithio rhithwir i gleifion, megis mynd ar heic rithwir.

Y dyraniad cyllid

6.27 Awgryma'r adborth a gasglwyd oddi wrth staff cyflawni fod costau gweithredu uwch na'r disgwyl dros y cyfnod cyflawni wedi bod yn heriol i'r rhaglen. Mae'r darparwr a gontractiwyd wedi ystyried hyn drwy gwtogi ar y teithio sy'n gysylltiedig â'r rhaglen a chynllunio ar gyfer cyfnod cau'r prosiect, o fis Ebrill i fis Mehefin 2025.

6.28 Cafwyd awgrym hefyd gan y tîm cyflawni bod ystod y gwaith y disgwyliwyd i'r rhaglen CDC ei gyflawni yn heriol o fewn y gyllideb gyffredinol a ddyrannwyd iddi. Er eu bod yn awgrymu y gallai'r rhaglen fod wedi elwa o fabwysiadu dull ag iddo fwy o ffocws, cymeradwywyd nifer o newidiadau gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod cyflawni i leihau cwmpas y rhaglen, megis lleihau nifer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar ganol y rhaglen a chyflwyno gwaith thematig sy'n canolbwyntio ar nifer llai o feysydd blaenoriaeth o fis Ebrill 2024 ymlaen.

[28] VR yn datgloi gorwelion i gleifion yng Nghlinig Caswell Bae Abertawe

7. Perfformiad a chyflawniadau

7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried perfformiad cyffredinol rhaglen CDC. Darperir dadansoddiad manwl o berfformiad rhwng 2019 a 2023 yn Adroddiad Diweddaru 2023[29].

Perfformiad CDC yn erbyn y DPA: Blynyddoedd 1 i 3 (Gorffennaf 2019 i Mehefin 2022)

7.2 Yn ystod cam cyntaf CDC a hyd ddiwedd mis Mawrth 2021, adroddodd y rhaglen yn erbyn naw DPA blynyddol. Daeth ein Gwerthusiad Interim o'r Broses a'r Canlyniadau i'r casgliad fod y rhaglen yn perfformio'n dda yn erbyn pedwar o'r rhain, gan ragori gryn dipyn ar ddau ohonynt. Roedd yn perfformio'n weddol dda yn erbyn tri DPA arall ond roedd yn tanberfformio'n sylweddol yn erbyn y ddau arall.

7.3 Mabwysiadwyd pedwar DPA (allbwn) newydd a phedwar canlyniad lefel rhaglen gan CDC o 1 Ebrill 2021 ymlaen[30], gan ddisodli'r naw dangosydd a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mehefin 2022, rhagorodd CDC ar un o'r DPA newydd hyn ond, er bod cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn y tri arall, ni lwyddodd y rhaglen i'w cyflawni'n llawn.

Perfformiad CDC yn erbyn y DPA: Blwyddyn 4 (12 mis) a Blwyddyn 5 (9 mis) (Gorffennaf 2022 i Fawrth 2024)

7.4 Dros ail gam y cyllid, gosodwyd targedau blynyddol ar gyfer tri o'r pedwar DPA. Mae Tabl 7.1 yn nodi cyflawniadau CDC dros y cyfnod o 21 mis yn ystod Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 i Fehefin 2023) a thri chwarter cyntaf Blwyddyn 5 (Gorffennaf i Fawrth 2024). Mae'r targedau yn y tabl hwn ar gyfer tri o'r DPA wedi'u cyfrifo ar sail gymesur, er mwyn cynnig barn am berfformiad CDC dros y cyfnod 21 mis. Nid oedd hyn yn bosibl ar gyfer DPA 3, gan na osodwyd targedau blynyddol ar gyfer y dangosydd hwn.

7.5 Mae’n dangos bod y rhaglen wedi rhagori ar ei tharged ar gyfer DPA 1 (Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus) ac wedi gwneud

[29] Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant | LLYW.CYMRU

[30] Mabwysiadwyd tri chanlyniad newydd yn wreiddiol, gyda’r pedwerydd wedi’i ychwanegu ym mis Gorffennaf 2022

cynnydd da yn erbyn DPA 2 (Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion) a DPA 4 (Staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus). Mae’r rhaglen i’w chanmol am ei gwaith yn hybu ei hallbynnau yn erbyn DPA 2 rhwng Gorffennaf 2023 a Mawrth 2024, a byddai’r llwyddiant hwn yn awgrymu bod yr heriau sy’n deillio o effaith barhaus y pandemig ar recriwtio gwirfoddolwyr bellach wedi edwino.

7.6 Dros gyfnod cyflawni o 21 mis, cyflawnodd y rhaglen ychydig dros hanner y targed tair blynedd a osodwyd ar gyfer DPA 3 (Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod yn strategol a'i ymgorffori ym mhrosesau cyflawni sefydliadau). Gan na osodwyd targedau blynyddol ar gyfer y DPA hwn mae'n anodd cynnig barn ar lwyddiant y rhaglen o ran cyrraedd y targed hwn. Mae’n nodedig fodd bynnag bod y rhaglen wedi cael llawer mwy o lwyddiant wrth gefnogi sefydliadau’r trydydd sector a’r sector cyhoeddus ar draws y DPA hwn ac na chofnodwyd unrhyw sefydliadau sector preifat yn erbyn y dangosydd hwn.

Tabl 7.1: Perfformiad CDC yn ystod Blwyddyn 4 (12 mis) a Blwyddyn 5 (9 mis)

		Blwyddyn 4 (Gorffennaf 22 i Mehefin 23, 12 mis)			Blwyddyn 5 (Gorffennaf 23 i Mawrth 24, 9 mis)			Blynyddoedd 4 i 6 (Gorffennaf 22 i Mawrth 24, 21 mis)		
DPA		**Targed**	**Cyflawnwyd**	**Cyflawnwyd fel %**	**Targed[31]**	**Cyflawnwyd**	**Cyflawnwyd fel %**	**Targed[32]**	**Cyflawnwyd**	**Cyflawnwyd fel %**
1	Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a hyder)	34,000	41,780	128%	25,500	24,061	94%	59,500	65,752	111%
2	Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion	1,000	623	62%	750	907	121%	1,750	1,530	87%
3	Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod yn strategol a'i ymgorffori ym mhrosesau cyflawni sefydliadau ar draws y:									
	• Sector Preifat		*0*					*10*	*0*	*0%*
	• Awdurdodau Lleol		*4*					*12*	*6*	*50%*
	• Byrddau Iechyd (Cynlluniau Tymor Canolig Integredig)		*4*					*9*	*5*	*56%*
	• Trydydd Sector a'r Sector Cyhoeddus	Ddim yn berthnasol	*16*	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	7	Ddim yn berthnasol	*24*	*20*	*83%*
	Cyfanswm		24					55	31	56%
4	Staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus	1,350	1,877	139%	1,013	1,648	61%	4,050	3,525	87%

Ffynhonnell: Adroddiadau chwarterol Rhaglen CDC

[31] Rydym wedi cyfrifo'r targedau hyn am gyfnod o naw mis gan ddefnyddio'r targedau 12 mis a osodwyd ar gyfer CDC, er mwyn cynnig golwg ar berfformiad rhaglenni. Mae'r holl dargedau a nodir yn y golofn hon yn 75% o'r targed blynyddol

[32] Mae tri o'r pedwar targed hyn wedi'u cyfrifo ar sail gymesur, gan ddefnyddio'r targedau blynyddol a osodwyd ar gyfer rhaglen CDC am y cyfnod tair blynedd rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mehefin 2025. Fodd bynnag, yn achos DPA 3, ni osodwyd unrhyw dargedau blynyddol felly roedd disgwyl i'r targed cyffredinol o 55 gael ei gyflawni dros gyfnod o dair blynedd.

Trafodaeth am y cyflawniadau yn erbyn y DPA: Blynyddoedd 1 i 4 (Gorffennaf 2019 i Mawrth 2024)

7.7 Trown yn awr i ystyried rhai o'r materion allweddol ar gyfer y DPA hyn:

DPA 1: Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus

7.8 Cefnogodd CDC 65,752 o bobl i ddod yn fwy digidol hyderus rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mawrth 2023, gan ddod â chyfanswm yr allbynnau yn erbyn y DPA hwn ers mis Ebrill 2021 i 106,451. Mae adroddiadau chwarterol Blwyddyn 5 (hyd at fis Mawrth 2024) yn nodi bod y rhan fwyaf o'r allbynnau hyn wedi'u cyflawni oherwydd i gyfranogwyr gael cefnogaeth anuniongyrchol drwy Gynlluniau Ymgynghori Digidol[33] a chefnogaeth anuniongyrchol drwy hyfforddiant.

DPA 2: Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion

7.9 Defnyddiodd CDC 1,350 o wirfoddolwyr i ddarparu cymorth rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mawrth 2024, gan ddod â chyfanswm yr allbynnau yn erbyn y DPA hwn ers mis Ebrill 2021 i 2,391. Yn ystod Blwyddyn 5 y rhaglen (Gorffennaf 2023 i Fawrth 2024), roedd yn parhau i fod yn wir mai prif ffynhonnell yr allbynnau hyn oedd y ffrwd waith Arwyr Digidol[34] (a oedd yn cyfrif am 568 o'r 907 o wirfoddolwyr a recriwtiwyd rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Mawrth 2024). Plant a phobl ifanc oedd y gwirfoddolwyr hyn, wedi'u hyfforddi yn eu hysgolion i gefnogi eu teuluoedd ac aelodau o'u cymunedau lleol. Fe wnaeth gallu dychwelyd i gyflwyno sesiynau mewn ysgolion ar ôl y pandemig helpu'r rhaglen i gynyddu ei gwaith recriwtio gwirfoddolwyr. Daeth y gwaith o gyflawni'r ffrwd waith Arwyr Digidol i ben ym mis Mawrth 2024 oherwydd bod yr elfen hon yn defnyddio llawer o adnoddau ac nid oedd yn cyd-fynd â dull thematig y rhaglen a fabwysiadwyd o hynny ymlaen.

7.10 Nododd y staff cyflawni fod yr heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio gwirfoddolwyr ers y pandemig yn parhau. Ni chredwyd bod yr heriau hyn yn

---

[33] Datblygwyd Cynlluniau Ymgynghori Digidol ar gyfer sefydliadau sy'n ymgysylltu â'r rhaglen CDC, gan nodi sut y bydd sefydliadau'n cefnogi eu defnyddwyr/aelodau i ddod yn fwy digidol hyderus.

[34] Plant a phobl ifanc sy'n gallu defnyddio technoleg yn hyderus, ac sy'n defnyddio eu sgiliau i helpu eraill gyda thechnoleg ddigidol yw Arwyr Digidol. Gweler: Arwyr Digidol (llyw.cymru)

unigryw i CDC, gan nad oedd ymgysylltiad gwirfoddolwyr ers y pandemig wedi gwella'n gyffredinol. Cafwyd consensws cyffredinol bod dileu’r targed o fis Ebrill 2024 ymlaen yn gam synhwyrol. Fodd bynnag, mae dileu'r targed yn codi cwestiynau am ddamcaniaeth newid sylfaenol CDC, sef bod y rhaglen wedi'i chynllunio i ddefnyddio gwirfoddolwyr i raeadru sgiliau a gwybodaeth ddigidol i eraill.

DPA 3: Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod yn strategol a'i ymgorffori ym mhrosesau cyflawni sefydliadau

7.11 Mae adroddiad chwarterol CDC ar gyfer mis Mawrth 2024 yn nodi bod y rhaglen wedi ymgysylltu â chyfanswm o 2,024 o sefydliadau, ac o blith y rhain, roedd 736 wedi cael Cynllun Ymgynghori Digidol. Mae'r adroddiadau chwarterol yn cynnwys manylion am y cymorth a ddarparwyd i gleientiaid sy'n cael ei hawlio yn ystod pob cyfnod adrodd ac yn darparu tystiolaeth bellach bod gwaith parhaus sylweddol yn cael ei wneud gyda'r sefydliadau hyn.

7.12 Roedd y rhaglen CDC yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â sefydliadau yn y sector preifat er bod adroddiadau chwarterol hyd fis Mawrth 2024 yn amlinellu rhai gweithgareddau e.e. darparu hyfforddiant i staff y Monmouthshire Building Society. Yn sgil mabwysiadu’r cynllun cyflawni diwygiedig o fis Ebrill 2024 ymlaen, daeth y gwaith o dargedu’r sector hwn i ben.

DPA 4: Staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus

7.13 Cefnogodd CDC 3,525 o bobl i ddod ddigidol hyderus rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mawrth 2024 , gan ddod â chyfanswm yr allbynnau yn erbyn y DPA hwn ers mis Ebrill 2021 i 4,916. Mae adroddiadau chwarterol ar gyfer blwyddyn 5 yn dangos bod 57% (933 o blith y 1,648) o staff a gefnogwyd i ddod yn ddigidol hyderus yn dod o’r sector iechyd a gofal cymdeithasol tra bod 43% (715) yn dod o sectorau eraill. Mae hyn yn welliant amlwg ar Flwyddyn 4 (pan mai dim ond 29% o'r staff a gefnogwyd a oedd yn dod o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol) sy'n awgrymu bod y

rhaglen wedi targedu mwy o'i hadnoddau'n briodol i gefnogi gweithlu'r sector yn unol â chylch gwaith CDC.

7.14 Yn ystod Blwyddyn 5, cyflwynwyd dros hanner yr hyfforddiant ar-lein e.e. cyflwynwyd 95 o'r 164 o sesiynau hyfforddi a ddarparwyd yn ystod chwarter 3 Blwyddyn 4 ar-lein.

Perfformiad CDC yn erbyn y DPA: Blwyddyn 5 (Ebrill i Medi 2024, 6 mis)

7.15 Mae Tabl 7.2 yn amlinellu perfformiad CDC hyd yma ar gyfer y chwe mis cyntaf o gyflawni yn erbyn y targedau a osodwyd ar gyfer y cyfnod cyflawni 15 mis sy'n weddill rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mehefin 2025. Ar ôl dechrau cymharol araf yn ystod y tri mis cyntaf rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024, nad oedd o bosibl yn syndod o ystyried y newidiadau y bu’n rhaid i’r prosiect eu cyflwyno er mwyn mabwysiadu dull cyflawni mwy thematig, mae CDC wedi gwneud cynnydd rhagorol dros y chwarter diwethaf hyd at fis Medi 2024. Mae'n edrych yn realistig y bydd y prosiect yn gallu cyflawni'r DPA erbyn mis Mehefin 2025, ac o bosibl rhagori arnynt, er gwaethaf yr angen i ganolbwyntio ar ddirwyn y prosiect i ben dros ychydig fisoedd olaf y cyfnod cyllido.

Tabl 7.2: Perfformiad CDC hyd yma Ebrill 2024 i Mehefin 2025 (15 mis)

Nifer	Dangosyddion Perfformiad Allweddol	Targed (15 mis)	Cyflawnwyd hyd yma fel % (6 mis)	Cyflawnwyd hyd yma fel %
1	Pobl yn cael eu cefnogi'n anuniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a hyder)	16,660	14,998	90%
2	Staff yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a hyder)	1,000	625	63%
3	Cefnogaeth i sicrhau perchnogaeth o gynhwysiant digidol gan randdeiliaid a chleientiaid	6	4	67%

Cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen: Blynyddoedd 1 i 5 (Gorffennaf 2019 i Mehefin 2024).

7.16 Roedd ein hadroddiadau gwerthuso blaenorol yn ystyried yr adborth a gasglwyd gan y rhaglen CDC gan sefydliadau cleientiaid ac unigolion a hyfforddwyd, fel modd o fesur i ba raddau yr oedd canlyniadau'r rhaglen yn cael eu cyflawni.

7.17 Roedd gwelliant amlwg yn y canlyniadau a adroddwyd dros amser, a dangosodd ein hadroddiad diweddaraf (yr adroddiad diweddaru blynyddol), a ystyriodd ddata canlyniadau ar gyfer Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 i Fehefin 2023) fod rhwng 79 a 98% o'r cyfranogwyr hyfforddedig wedi adrodd am ganlyniadau gwell o ganlyniad i fod yn rhan o CDC. Dangosodd data arolwg a gasglwyd gan CDC ar gyfer sefydliadau a gefnogwyd ddarlun ychydig yn fwy cymysg, ond mae'r canlyniadau'n well o'u gymharu â'r gwerthusiad interim. Nodir y data eto yn Nhabl 7.3, er hwylustod.

Tabl 7.3: Cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen CDC

Canlyniad 1: Pobl yn meddu ar ddigon o sgiliau digidol sylfaenol a hyder i allu ymgysylltu'n ddigidol (a chyda gwasanaethau digidol) yn eu bywydau beunyddiol a'u bywydau gwaith	• Roedd 88% yn teimlo bod eu sgiliau digidol wedi gwella • Roedd 92% yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio technoleg • Dywedodd 98% eu bod yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein • Mae 91% yn teimlo eu bod wedi'u hysgogi i ddefnyddio technoleg yn eu bywydau bob dydd • Roedd 89% yn fwy hyderus i rannu eu sgiliau digidol ag eraill.
Canlyniad 2: Mwy o bobl yn defnyddio technoleg i reoli eu hiechyd (corfforol a meddyliol) a'u llesiant yn annibynnol	• Mae 79% yn deall yn well sut i ddefnyddio technoleg i wella a rheoli eu hiechyd • Mae gan 88% y sgiliau a'r hyder i wneud yr holl bethau y maent am eu gwneud gyda thechnoleg
Canlyniad 3: Y cynnydd mewn cynhwysiant digidol yn cael ei ymgorffori mewn strategaeth a darpariaeth sefydliadol	• Dywedodd 90% o'r sefydliadau (43 o blith 48) fod y cymorth wedi eu helpu i weithio tuag at eu nodau cynhwysiant digidol • Datblygodd 62% o sefydliadau (30 o blith 48) bartneriaeth ddigidol gyda sefydliadau eraill o ganlyniad i CDC • Roedd 50% o'r sefydliadau (24 o blith 48) yn ymwybodol o'r Strategaeth Ddigidol i Gymru
Canlyniad 4: Gwell dealltwriaeth o'r defnydd o wasanaethau ac offer iechyd digidol drwy brosiectau ymchwil ar gyfer carfannau penodol a gwaith mapio hydredol	• Nid oedd unrhyw fetrigau penodol yn cael eu hadrodd yn yr adroddiadau chwarterol yn erbyn y canlyniad hwn, ond mae gwaith ar y gweill i gefnogi datblygu ap GIG Cymru.

Ffynhonnell: Adroddiadau chwarterol rhaglen CDC Blwyddyn 4 (Gorffennaf 2022 – Mehefin 2023) (309 o gyfranogwyr a 48 o sefydliadau)

7.20 Mae Tabl 7.4 yn amlinellu'r data canlyniadau a adroddwyd gan CDC dros dri chwarter cyntaf Blwyddyn 5 (Gorffennaf 2023 – Mawrth 2024). Nid yw'n bosibl cyfuno'r data ar gyfer tri chwarter cyntaf Blwyddyn 5 gyda data'r blynyddoedd blaenorol gan fod dangosyddion adrodd gwahanol wedi'u

defnyddio. Dengys Tabl 7.6 fod mwyafrif llethol y buddiolwyr hyfforddedig wedi adrodd ar ganlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i'w hymgysylltiad â'r rhaglen. Mae'n werth nodi hefyd na fabwysiadwyd unrhyw fetrigau penodol ar gyfer Canlyniadau 3 a 4.

Tabl 7.4: Cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen CDC (Chwarter 1 i 3, data Blwyddyn 5)

Canlyniad 1: Pobl yn meddu ar ddigon o sgiliau digidol sylfaenol a hyder i allu ymgysylltu'n ddigidol (a chyda gwasanaethau digidol) yn eu bywydau beunyddiol a'u bywydau gwaith	• Roedd 94% yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio'r rhyngrwyd a thechnoleg. • Dywedodd 98% eu bod yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein. • Roedd 94% yn teimlo'n fwy hyderus yn helpu eraill i fynd ar-lein. • Roedd 93% yn teimlo'n fwy hyderus wrth gyfathrebu ar-lein. • Roedd 91% yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio'r rhyngrwyd i ddatrys problemau
Canlyniad 2: Mwy o bobl yn defnyddio technoleg i reoli eu hiechyd (corfforol a meddyliol) a'u llesiant yn annibynnol	• Mae 92% yn deall yn well sut i ddefnyddio technoleg i wella a rheoli eu hiechyd.
Canlyniad 3: Y cynnydd mewn cynhwysiant digidol yn cael ei ymgorffori mewn strategaeth a darpariaeth sefydliadol	• Nid adroddwyd ar unrhyw fetrigau penodol yn yr adroddiadau chwarterol yn erbyn y canlyniad hwn, ond gellir dangos tystiolaeth o'r canlyniad drwy ein hesiamplau o astudiaethau achos ym Mhennod 8 o'r adroddiad hwn.
Canlyniad 4: Gwell dealltwriaeth o'r defnydd o wasanaethau ac offer iechyd digidol drwy brosiectau ymchwil ar gyfer carfannau penodol a gwaith mapio hydredol	• Nid adroddwyd ar unrhyw fetrigau penodol yn yr adroddiadau chwarterol yn erbyn y canlyniad hwn. Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd drwy ein hastudiaethau achos enghreifftiol ym Mhennod 8 o'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar y cyflawniadau yn erbyn y canlyniad hwn ychwaith.

Ffynhonnell: Adroddiadau chwarterol rhaglen CDC Blwyddyn 5 (Gorffennaf 2023 – Mawrth 2024) (425 o gyfranogwyr)

7.23 Mae Tabl 7.5 yn amlinellu'r data canlyniadau a adroddwyd gan CDC ers mis Ebrill 2024 (chwarter olaf Blwyddyn 5 a chwarter cyntaf Blwyddyn 6,

Ebrill – Medi 2024). Mae’n dangos bod cyfrannau uchel tebyg iawn, er ychydig yn llai ar gyfer rhai dangosyddion, o fuddiolwyr hyfforddedig wedi adrodd am ganlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i gymryd rhan yn y rhaglen.

Tabl 7.5: Cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen CDC (Chwarter 5, Blwyddyn 5 a Chwarter 1, Blwyddyn 6)

Canlyniad 1: Pobl yn meddu ar ddigon o sgiliau digidol sylfaenol a hyder i allu ymgysylltu’n ddigidol (a chyda gwasanaethau digidol) yn eu bywydau beunyddiol a’u bywydau gwaith	• Roedd 88% yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio'r rhyngrwyd a thechnoleg. • Dywedodd 93% eu bod yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein. • Roedd 87% yn teimlo’n fwy hyderus yn helpu eraill i fynd ar-lein. • Roedd 93% yn teimlo’n fwy hyderus wrth gyfathrebu ar-lein. • Roedd 93% yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio'r rhyngrwyd i ddatrys problemau.
Canlyniad 2: Mwy o bobl yn defnyddio technoleg i reoli eu hiechyd (corfforol a meddyliol) a'u llesiant yn annibynnol	• Mae 87% yn deall yn well sut i ddefnyddio technoleg i wella a rheoli eu hiechyd.
Canlyniad 3: Cynnydd mewn perchnogaeth o gynhwysiant digidol gan randdeiliaid a chleientiaid	• Ni adroddwyd ar unrhyw fetrigau penodol yn yr adroddiadau chwarterol yn erbyn y canlyniad hwn, ond dangosir tystiolaeth o’r canlyniad drwy ein hesiamplau o astudiaethau achos, ym Mhennod 8 o'r adroddiad hwn.

Ffynhonnell: Adroddiadau chwarterol rhaglen CDC Blwyddyn 5 (Ebrill – Mehefin 2024) a Blwyddyn 6 (Gorffennaf – Medi 2024) (122 o gyfranogwyr)

8. Y gwahaniaeth a wnaed i sefydliadau a gefnogwyd

8.1 Mae'r bennod hon yn ystyried darpariaeth Cymunedau Digidol Cymru (CDC) i sefydliadau a gefnogwyd ac yn myfyrio ar y gwahaniaeth a wnaed i sefydliadau a chyfranogwyr. Mae’n seiliedig ar adborth a gasglwyd o chwe astudiaeth achos sefydliadol, yn ogystal â chyfweliadau dilynol gyda phedwar sefydliad a gymerodd ran yn y gwerthusiad canol tymor. Mae'r bennod wedi'i strwythuro i ddarparu tystiolaeth am y gwahaniaeth y mae CDC wedi'i wneud ar draws tri chanlyniad y rhaglen, ond mae rhai o'r astudiaethau achos a nodir isod yn darparu tystiolaeth ar gyfer mwy nag un canlyniad. Mae'r astudiaethau achos hefyd yn darparu tystiolaeth o sut y mae'r rhaglen CDC wedi cyfrannu at ei model thematig mwy diweddar o weithio mewn perthynas ag iechyd, gofal cymdeithasol, tai cymdeithasol, pobl hŷn a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

8.2 Mae'r bennod hon hefyd yn cynnwys astudiaethau achos penodol sy'n helpu i ddangos y gwahaniaeth y mae CDC wedi'i wneud i sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Canlyniad 1: Pobl yn meddu ar ddigon o sgiliau digidol sylfaenol a hyder i allu ymgysylltu’n ddigidol (a chyda gwasanaethau digidol) yn eu bywydau beunyddiol a’u bywydau gwaith

8.3 Mae’r astudiaethau achos canlynol yn helpu i ddangos sut y mae CDC wedi cefnogi sgiliau digidol a hyder digidol y gweithlu ar draws dau leoliad iechyd:

Nododd un Bwrdd Iechyd bod lefelau sgiliau digidol a hyder ei weithlu yn isel a gwelodd CDC fel cyfle i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Fel cyflogwr mawr, nod y Bwrdd Iechyd oedd datblygu sgiliau digidol ymhlith y staff, gan obeithio y byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned ehangach. Cefnogodd CDC y Bwrdd Iechyd drwy hyfforddi tîm o Hyrwyddwyr Digidol i wella eu hyfedredd a'u hyder digidol. Rhoddodd y sesiynau hyfforddi, a gynhaliwyd yn rhithwir, sgiliau i staff i gefnogi'r defnydd o dechnoleg ddigidol yn bersonol ac yn broffesiynol. Datblygodd un cyfranogwr, a oedd eisoes yn 'eiriolwr digidol' yn ward ei ysbyty, ei

sgiliau ymhellach drwy'r rhaglen ac yn ddiweddarach derbyniodd rôl ddigidol fwy o fewn y sefydliad. Roedd y cyfranogwr hwn yn cefnogi cydweithwyr gyda materion digidol, yn amrywio o dasgau fel troi dyfais ymlaen i roi arweiniad i eraill ar ddefnyddio Microsoft Teams, ac awgrymodd y byddai wedi elwa o hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio mwy ar gefnogi cydweithwyr yn hytrach na chleifion.

Yn dilyn yr hyfforddiant cychwynnol, sefydlodd CDC amserlen hyfforddiant blwyddyn o hyd yn seiliedig ar archwiliad sgiliau, gyda sesiynau'n cael eu cynnig bob wythnos mewn modiwlau hylaw 1 i 1.5 awr. Roedd pynciau diweddar yn cynnwys diogelwch digidol, gofal dementia, a Deallusrwydd Artiffisial.

Er bod lefelau presenoldeb yn amrywio oherwydd pwysau gwaith, mae'r sesiynau hyfforddi a ddarperir ar y cyd yn canolbwyntio ar gymwysiadau ymarferol yn y gweithle a chymorth parhaus. Mae cyfranogiad CDC wedi cynyddu gallu’r Bwrdd Iechyd yn sylweddol i ddarparu hyfforddiant digidol cyson wedi’i deilwra i’w weithlu:

'Gan mai dim ond dau ohonom sydd yn y tîm rydym yn dibynnu ar CDC am gyfleoedd hyfforddi oherwydd nid ydym yn gallu cydlynu hyn i gyd yn ogystal â darparu'r hyfforddiant.'

Llwyddodd un ymddiriedolaeth iechyd, gyda chefnogaeth CDC, i fabwysiadu'r Siarter Cynhwysiant Digidol, sydd wedi dod yn ganolog i'w strategaeth ddigidol.

'Roedd llawer o fanylion yn y siarter ac fe roddodd arweiniad a strwythur da iawn i mi ar gyfer yr hyn yr oedd angen i mi ei wneud'

Mae CDC wedi parhau i gefnogi'r Ymddiriedolaeth gyda chyfarfodydd cynghori misol, gan helpu i fynd i'r afael â heriau fel capasiti cyfyngedig. Mae'r cydweithio parhaus hwn wedi bod yn allweddol i yrru mentrau cynhwysiant digidol yr Ymddiriedolaeth yn eu blaenau. Bellach, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sicrhau cyllid i benodi hyfforddwr cynhwysiant digidol mewnol, gan ddangos ei hymrwymiad i ehangu ei gwaith yn y maes hwn.

'Maen nhw wedi deall diben y Siarter ac mae hynny'n galonogol iawn' [staff cyflawni CDC]

Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth hyfforddiant Hyrwyddwyr Digidol CDC i'w Thîm Hawliau Lles, gan roi hwb i'w hyder mewn perthynas â sgiliau digidol a'u galluogi i gefnogi eu cleifion gyda chymwysiadau ar-lein. Mae'r symudiad hwn yn cyd-fynd â nod yr Ymddiriedolaeth o gynyddu ymgyngoriadau rhithwir, er mwyn gwella effeithlonrwydd. Mae'r hyfforddiant, sy'n cael ei lywio gan archwiliad o sgiliau tîm gan ddefnyddio Fframwaith Galluogrwydd Digidol AaGIC, yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion penodol y tîm.

'Mae'r hyfforddiant wedi rhoi hwb i hyder rhai aelodau o'r tîm a oedd yn fwy nerfus ynglŷn â thechnoleg, gan eu helpu i weld bod ganddynt fwy o wybodaeth a sgiliau digidol nag yr oeddent wedi sylweddoli.'

Mae ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i gynhwysiant digidol nid yn unig wedi gwella ansawdd y gwasanaeth a gynigir i gleifion ond hefyd wedi datblygu i fod yn fenter sy'n cwmpasu'r Ymddiriedolaeth gyfan. Mae cydweithio rhwng y tîm digidol a'r adran adnoddau dynol (AD) wedi sicrhau bod sgiliau digidol yn cael eu hymgorffori mewn prosesau sefydlu staff safonol.

Nod y dull cynhwysfawr hwn o sicrhau cynhwysiant digidol yw gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant y gweithlu, diogelwch data, a chreu profiadau digidol cyfeillgar-i-ddefnyddwyr i'r staff gan arwain at ganlyniadau iechyd a llesiant gwell i gleifion.

Mae adborth gan yr Ymddiriedolaeth yn amlygu'r effaith gadarnhaol y mae CDC wedi'i chael ar ei gwaith, ac mae'n cydnabod rôl CDC o ran uwchsgilio staff, sydd yn graddol greu budd i wasanaethau a ddarperir i gleifion.

'Maen nhw'n ymatebol iawn. Maen nhw yno pan fydd angen cymorth arnom. Maen nhw hefyd wedi ein cyfeirio at adnoddau y gallwn eu defnyddio. Felly, maen nhw'n bendant wedi cael effaith ar y gwaith rydym wedi'i wneud, ac yn sicr, mae safon ein gwaith wedi codi o'u oherwydd.'

Er gwaethaf eu cynnydd, mae maint bach tîm digidol yr Ymddiriedolaeth wedi'i gwneud yn heriol i ddiwallu anghenion ar draws y sefydliad. Mae'r tîm

yn awyddus i ehangu ei rwydwaith o Hyrwyddwyr Digidol mewnol ond nid oes ganddynt yr adnoddau i gynnal a chefnogi'r fenter hon yn llawn.

'Byddai'n wych gallu dweud wrth ein haelodau newydd o staff ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â Chymunedau Digidol Cymru ac egluro y gallant roi cymorth i chi a'ch adran pan fydd ei angen arnoch chi. Byddai hyn yn ysgafnhau'r pwysau arnom fel tîm gwasanaethau digidol'.

Canlyniad 2: Mwy o bobl yn defnyddio technoleg i reoli eu hiechyd (corfforol a meddyliol) a'u llesiant yn annibynnol

8.4 Mae'r canlyniad hwn yn cael ei adlewyrchu orau yn y straeon unigol a gasglwyd yn uniongyrchol drwy gyfweliadau â buddiolwyr neu drwy adborth ysgrifenedig a ddarparwyd gan sefydliadau astudiaethau achos am y ffordd yr oedd eu menter, gyda chymorth CDC, wedi arwain at welliannau iechyd corfforol a meddyliol cadarnhaol i fuddiolwyr. Mae'r tair enghraifft ganlynol yn dangos sut y mae CDC wedi helpu defnyddwyr y llyfrgell, preswylwyr cartrefi gofal ac aelodau o grŵp cymunedol.

Benthyg cyfarpar i ddefnyddwyr llyfyrgell

Cymerodd llyfrgell ran yn y cynllun benthyg dyfeisiau llechen, mewn partneriaeth â darparwr tai a CDC, gan alluogi defnyddwyr i fenthyca dau iPad a brynwyd drwy gyllid Cymunedau Gwledig Creadigol. Roedd yr iPads, a fenthycwyd i ddefnyddwyr am dair wythnos ar y tro, wedi'u rhaglwytho ag apiau llyfrgell fel BorrowBox ac RBDigital, yn ogystal ag apiau iechyd a llesiant. Darparodd staff y llyfrgell gyfarwyddiadau byr i ddefnyddwyr, ac roedd Hyrwyddwr Digidol hefyd wrth law i ddarparu cymorth mwy cynhwysfawr yn ôl yr angen.

Arweiniodd pryderon cychwynnol ynghylch difrod neu gamddefnydd posibl, a phryder ymhlith staff y llyfrgell am rai o'r agweddau technegol, at gyfyngu ar hyrwyddo'r iPads i ddechrau, gan olygu mai nifer bach a fanteisiodd arnynt. Fodd bynnag, cafodd y materion hyn eu datrys, a chynyddodd y galw, yn enwedig ymhlith defnyddwyr hŷn y llyfrgell nad oedd ganddynt ffonau clyfar na mynediad at y rhyngrwyd gartref.

Cafodd hyn effaith fawr ar un cwpl oedrannus, a oedd yn ymweld â'r llyfrgell yn rheolaidd, gan eu galluogi i ddarllen yn ddigidol ar ôl llawdriniaeth ddiweddar ar eu llygaid. Roedd yr iPad yn amhrisiadwy iddynt, ac ar ddiwedd cyfnod y benthyciad, roeddent yn bwriadu prynu un eu hunain i barhau â'r darllen.

Nododd buddiolwr arall, a oedd cael benthyg iPad:

'Mae [yr iPad] wedi bod o fudd mawr i mi. Mae gen i anaf i'r arddwrn ers peth amser. Fe wnaeth yr iPad yn fy ngalluogi i ymchwilio i'r problem a'i datrys fy hun…Rwy'n 71, yn byw ar fy mhen fy hun ac yn cael credyd pensiwn. Dychmygwch pa mor hyfryd oedd cael benthyg iPad am ddim. Doeddwn i ddim yn gallu credu pa mor ffodus oeddwn i. Mae wedi rhoi iachâd, addysg a llawer o bleser i mi.'

Preswylwyr cartrefi gofal

Nododd un rheolwr cartref gofal preswyl fod CDC wedi darparu cyfarpar i'r cartref yn ystod y pandemig COVID-19 i hwyluso cyfathrebu ac i ddarparu adloniant ar-lein i breswylwyr yn ystod y cyfnodau clo. Nid oedd angen unrhyw hyfforddiant ar y cartref gofal, gan fod ganddo aelod o staff a oedd yn ddigidol gymwys a fu'n cefnogi cydweithwyr i ddefnyddio'r cyfarpar.

Darparodd CDC gyfarpar fel seinyddion clyfar, iPads, a Fire Sticks, a sefydlodd gysylltiadau Porth Facebook ar sgriniau teledu mawr. Fe wnaeth y dechnoleg hon wella ansawdd bywyd y preswylwyr, ac roedd canmoliaeth mawr i ddull gweithredu CDC. Roedd seinyddion clyfar yn caniatáu i breswylwyr chwarae cerddoriaeth neu wrando ar bodlediadau, gan roi mwy o ddewis iddynt o ran yr hyn yr oeddent am wrando arno, tra bod iPads yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfathrebu ag aelodau o'r teulu. Er bod gan staff bryderon i ddechrau am breifatrwydd yn ymwneud â’r dyfeisiau hyn, lleihaodd y pryderon hyn dros amser:

'Pwy bynnag feddyliodd am hyn, roedd yn syniad gwych. Dw i ddim yn meddwl y bydden ni wedi rhoi hyn ar waith ein hunain ar y pryd. Digwyddodd popeth mor gyflym.'

Nawr, mae'r defnydd o gyfarpar fel seinyddion clyfar wedi dod yn norm ar draws y cartref gofal.

Cymorth i gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

Gweithiodd CDC gyda grŵp annibynnol dan arweiniad gwirfoddolwyr sy'n cefnogi cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i oresgyn allgáu cymdeithasol. Gofynnodd y grŵp, sy'n gweithio gyda Chasgliad y Werin Cymru i gofnodi hanes aelodau oedrannus y gymuned, am gymorth gan CDC i helpu i ddatblygu sgiliau digidol er mwyn cymryd rhan mewn prosiect adrodd straeon. Roedd angen cymorth arnynt hefyd gyda chysylltedd a mynediad at gyfarpar.

Roedd yr aelodau, sydd oll dros 50 oed, wedi ymddeol ac yn byw mewn tai cymdeithasol, eisiau gwneud gwell defnydd o'u dyfeisiau digidol presennol, megis gliniaduron, ffonau clyfar a dyfeisiau llechen, i ddefnyddio cymwysiadau bob dydd fel e-bost, y rhyngrwyd, porwyr gwe a phlatfformau galwadau fideo. Disgrifiwyd teimladau o orbryder, dryswch ac ofn ynghylch y ffaith nad oeddent yn gallu defnyddio dyfeisiau'n iawn ac embaras am orfod dibynnu ar deulu am help:

'Roeddwn i'n ei chael hi'n anodd iawn cadw i fyny â'r datblygiadau o ran y dechnoleg ddigidol newydd... doeddwn i ddim yn gallu ymdopi'

Cyflwynodd CDC raglen wyneb-yn-wyneb chwe wythnos wedi'i theilwra i ddiddordebau ac anghenion y cyfranogwyr yn ymdrin â phynciau fel defnyddio ffonau clyfar ac iPads, diogelwch ar-lein, a defnyddio platfformau fideo fel Zoom. Disgrifiwyd yr hyfforddwr fel un 'amyneddgar' a 'hamddenol', gan weithio ar gyflymder a oedd yn sicrhau bod y cyfranogwyr yn deall y cynnwys yn llawn. Teimlai'r grŵp fod y gefnogaeth wedi rhoi mwy o hyder iddynt ddefnyddio eu dyfeisiau. Cellweiriodd un aelod o'r grŵp gan ddweud:

'un o'r pethau pwysig a ddysgwyd i ni oedd sut i ddiffodd y ddyfais a'i throi ymlaen eto os oedden ni'n teimlo bod angen i ni ddechrau eto. Mae hynny'n swnio'n wirion, ond roedd yn galonogol a rhoddodd hynny yr hyder i mi roi cynnig ar bethau'

Roedd yr hyfforddiant hefyd wedi helpu aelodau i adnabod sgamiau a bod yn fwy diogel ar-lein e.e. drwy newid cyfrineiriau. Dros gyfnod y pandemig, roedd y gallu i ddefnyddio technoleg i gyfathrebu ag eraill yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac roedd cefnogaeth CDC yn allweddol:

'Mae yna hefyd lawer ohonom sy'n defnyddio ein dyfeisiau i siarad ag aelodau o'n teuluoedd ledled y byd, sy'n bwysig iawn. Mae effaith gallu gwneud hynny'n enfawr'

Roedd yr aelodau bellach yn defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau newydd i gwblhau tasgau beunyddiol fel siopa ar-lein, gwylio'r teledu ar eu gliniadur neu wirio amseroedd bysiau:

'Rwy'n defnyddio fy nyfais i wirio amseroedd bysiau. Mae hyn wedi arbed llawer o amser i mi... rwy'n clicio ar yr ap ac mae'r wybodaeth yno'

Yn dilyn yr hyfforddiant, roedd yr aelodau'n gallu cofnodi eu straeon drwy brosiect Casgliad y Werin Cymru, ac roedd cefnogaeth y rhaglen CDC wedi dileu rhwystrau a allai fel arall fod wedi eu rhwystro rhag cymryd rhan. Bu eu hymwneud â'r prosiect adrodd straeon yn hynod bwerus, gan roi llais a chyfle iddynt rannu eu hanes.

'Rydyn ni i gyd yn gwybod ... mwy am o ble rydyn ni wedi dod a beth rydyn ni wedi bod drwyddo yn ein bywydau. Mae wedi bod yn bwerus iawn i ni'

Soniodd yr aelodau hefyd am well llesiant ac iechyd meddwl, gan deimlo'n fwy annibynnol, gyda thechnoleg yn eu galluogi i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, a'u helpu i oresgyn unigrwydd:

'Rwy'n byw ar fy mhen fy hun ac mae fy ffôn yn achubiaeth. Mae'n dod â hapusrwydd i'm bywyd a…chysylltiad â'r bobl…sy'n annwyl i mi'.

Tra'n elwa o'r hyfforddiant, pwysleisiodd yr aelodau y byddent yn dal i elwa o gael cefnogaeth bellach i barhau i fod yn gysylltiedig ac yn ddiogel ar-lein.

Canlyniad 3: Cynnydd mewn perchnogaeth o gynhwysiant digidol gan randdeiliaid a chleientiaid

8.5 Caiff y canlyniad hwn ei adlewyrchu orau drwy astudiaethau achos ar lefel sefydliadau ar draws y sectorau iechyd, awdurdodau lleol a thai cymdeithasol.

8.6 Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos sut y mae CDC wedi cefnogi lleoliadau iechyd, awdurdodau lleol, a sefydliadau tai cymdeithasol i ymwreiddio cynhwysiant digidol yn strategaethau a darpariaeth y sefydliad.

Y sector iechyd

8.7 O gymharu â'r gwerthusiad canol tymor, roedd mwy o enghreifftiau o arfer da ar draws sefydliadau'r sector iechyd yn dod i'r amlwg, gan ddangos bod byrddau iechyd yn cofleidio cynhwysiant digidol yn llawn. Tynnwyd sylw at dri bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd a oedd wedi rhoi mesurau allweddol ar waith, gan gynnwys creu rolau arweinwyr/staff Digidol, mabwysiadu'r Siarter Cynhwysiant Digidol a defnyddio Hyrwyddwyr Digidol ar draws gwasanaethau hanfodol. Awgrymodd rhai cyfranwyr y dylai fod yn orfodol i bob bwrdd iechyd gael rôl Rheolwr Cynhwysiant Digidol.

8.8 Mae'r astudiaeth achos gyntaf hon o'r sector iechyd yn dangos sut y mae un bwrdd iechyd wedi ymwreiddio cynhwysiant digidol yn llawn yn ei strategaeth sefydliadol a'i ymdrechion i sicrhau trawsnewidiad digidol, gyda chymorth CDC:

Mae un bwrdd iechyd wedi cydweithio'n agos â CDC o'r cychwyn cyntaf. Mae CDC yn cefnogi'r bwrdd iechyd gyda chyngor ac arbenigedd ac yn darparu rhaglen barhaus o hyfforddiant digidol i'r staff.

Mae'r bwrdd iechyd wedi penodi Tîm Trawsnewid Digidol sy'n cynnwys Cyfarwyddwr Digidol, Rheolwr Cynhwysiant Digidol a Chynghorydd ac mae wedi ymwreiddio cynhwysiant digidol yn strategaeth a darpariaeth y sefydliad. Maent wedi cael eu cydnabod fel arweinwyr o fewn y sector iechyd. Dywedodd staff o'r bwrdd iechyd eu bod wedi dechrau ar y daith hon o ddifrif dair i bedair blynedd yn ôl a bod yr agenda wedi'i llywio gan dîm mewnol angerddol.

Mae cynghorydd CDC yn mynychu Grŵp Llywio Cynhwysiant Digidol Rhanbarthol, a arweinir gan y bwrdd iechyd ac a fynychir gan sefydliadau rhanddeiliaid o'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae cynghorydd CDC yn dod ag arbenigedd i'r grŵp hwn, gyda'r nod o rannu arferion da, a mynd i'r afael â bylchau a chyfleoedd.

8.9 Mae’r ail astudiaeth achos o fwrdd iechyd yn helpu i ddangos sut y gall cymorth gan CDC gefnogi trawsnewidiad o fewn timau penodol, drwy wella eu gallu i ddefnyddio technolegau digidol ar gyfer gofal cleifion:

Cafodd tîm therapi galwedigaethol mewn bwrdd iechyd gymorth gan CDC i wella mynediad digidol i gleifion iechyd meddwl, yn enwedig oedolion hŷn â dirywiad gwybyddol, yn ystod y cyfnod clo.

Ar ôl sicrhau cyllid, penododd y tîm Swyddog Cynhwysiant Digidol a ffurfiodd bartneriaeth â CDC i greu rhaglen hyfforddi i staff sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio technolegau digidol gyda chleifion i gefnogi cyfathrebu ar-lein a byw'n annibynnol. Rhoddodd CDC gyngor ar ddyfeisiau addas megis dyfeisiau llechen a seinyddion clyfar a helpu i gaffael cyfarpar y gellid eu benthyg i gleifion am gyfnodau prawf.

Erbyn diwedd cyfnod cyllido'r peilot, roedd therapyddion galwedigaethol wedi darparu cymorth cynhwysiant digidol i gleifion ar draws pum maes gwasanaeth ac roedd y cyfarpar a’r practisau’n parhau i gael eu defnyddio. Roedd yr hyfforddiant a'r cymorth a ddarparwyd gan CDC yn allweddol i lwyddiant y prosiect:

'Roedd y cyngor a gawsom ganddynt ynghylch defnyddio technoleg glyfar, Mi-Fi35, a pha ddyfeisiau i'w defnyddio yn amhrisiadwy'

Roedd dyfeisiau clyfar, fel yr Alexa Show, yn arbennig o boblogaidd ac effeithiol i gleifion, gan ganiatáu i deuluoedd fwy neu lai 'alw i mewn' gyda'u perthnasau. Roedd Seinyddion Clyfar hefyd yn werthfawr, gan helpu cleifion i reoli tasgau dyddiol fel cymryd meddyginiaeth neu fynychu apwyntiadau.

Amlygodd y prosiect sawl her foesegol, yn enwedig o ran natur tymor byr y dyfeisiau a fenthycwyd. Mewn rhai achosion, daeth cleifion yn ddibynnol ar

[35] Dyfais ddiwifr gludadwy, wedi'i phweru gan fatri neu y gellir ei hailwefru, sy'n cysylltu â rhwydweithiau ffôn symudol 4G neu 5G i greu llecyn band eang bach.

y dechnoleg, ac arweiniodd hynny at wneud iddynt deimlo'n ofidus pan oedd yn rhaid dychwelyd y dyfeisiau. Mynegodd teuluoedd bryderon hefyd, gan na allai rhai fforddio prynu'r dechnoleg eu hunain.

Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd yr adborth gan staff a chleifion yn hynod gadarnhaol. Bu'r gallu i dreialu dyfeisiau yn y byd go iawn o gymorth i oresgyn amharodrwydd cychwynnol, a llwyddodd llawer o unigolion â dirywiad gwybyddol sylweddol i ddefnyddio'r dechnoleg yn llwyddiannus.

'Wyddoch chi beth sy'n hyfryd? Mae Alexa yn siarad â mi, ac rwy'n teimlo'n llai unig.'

Roedd y tîm Therapi Galwedigaethol yn onest ynghylch y ffaith, er bod cyfeiriad at gynhwysiant digidol ym mholisïau strategol y bwrdd iechyd, bod cymorth a chyllid parhaus ar gyfer dyfeisiau'n parhau i fod yn gyfyngedig. Mae rhywfaint o rwystredigaeth ynghylch yr anhawster i gael cyllid ar gyfer dyfeisiau digidol o gymharu â mathau eraill o dechnoleg gynorthwyol, megis lifftiau grisiau neu ganllawiau:

'Gall manteision y dechnoleg hon fod yr un mor effeithiol, ond nid yw hynny wedi cael ei gydnabod yn llawn o fewn y system eto'

Mae angen rhagor o waith i ymgorffori cynhwysiant digidol ar draws pob adran yn y lleoliad hwn, yn hytrach na dibynnu ar dîm neu unigolyn penodol.

8.10 Mae'r drydedd astudiaeth achos hon o'r sector iechyd yn dangos y cynnydd a wnaed gan un bwrdd iechyd ynghylch cynhwysiant digidol, yn ogystal â'r heriau a wynebwyd wrth barhau â'r ymdrechion hyn:

Adroddodd bwrdd iechyd oedi wrth ddiweddaru ei strategaeth ddigidol, a bod mentrau Cynhwysiant Digidol ar ei hôl hi oherwydd galwadau â blaenoriaeth uwch a newidiadau mewn arweinyddiaeth. Mae trosiant cyson mewn uwch rolau wedi arafu'r broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys cymeradwyo'r Siarter Cynhwysiant Digidol, ac mae cyfyngiadau ariannol yn golygu ei bod yn annhebygol y caiff cydlynydd Cynhwysiant

Digidol ei benodi. Mae hyfforddiant digidol yn parhau i fod yn 'ychwanegiad' at strategaeth y bwrdd iechyd yn hytrach na rhan greiddiol ohoni.

Mae cynghorydd CDC wedi darparu canllawiau hollbwysig ar brosiectau amrywiol a datblygiadau strategol, gan gynnwys digideiddio cofnodion nyrsio papur a gwella sgiliau digidol o fewn y tîm ystadau, a oedd â lefel isel o lythrennedd digidol. Darparodd y cynghorydd hefyd ganllawiau ar ddigideiddio cofnodion iechyd meddwl a phrosiect e-bresgripsiynu arfaethedig.

Mae'r posibilrwydd o golli cymorth CDC ar ôl mis Mehefin 2025 yn her sylweddol, gan nad oes gan y bwrdd arbenigedd mewnol ar Gynhwysiant Digidol na chyllid ar gyfer hyrwyddwr Cynhwysiant Digidol ymroddedig i gydlynu'r ymdrechion.

Galwodd y bwrdd iechyd am integreiddio Cynhwysiant Digidol yn well o fewn polisïau cenedlaethol, fel Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, i gefnogi ei ddatblygiad o fewn eu sefydliad. Gwnaethant hefyd achos cryf dros ymgorffori Cynhwysiant Digidol mewn system ehangach megis y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan eu bod yn chwarae rhan hanfodol wrth ysgogi newid systemig cynaliadwy.

Awdurdodau lleol

8.11 Dywedodd y cyfranwyr fod y berthynas rhwng CDC ac awdurdodau lleol wedi aeddfedu yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen. Roedd enghreifftiau da lle roedd y rhaglen CDC wedi gallu ymestyn ei gwaith ar draws awdurdodau lleol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mewn un achos mae CDC wedi darparu hyfforddiant i staff sy'n gweithio ym meysydd addysg, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau llyfrgelloedd ac maent mae wrthi'n archwilio hyfforddiant ar gyfer staff cyfleusterau (gofalwyr a glanhawyr) yn ogystal â chasglu gwastraff a chynghorwyr. Mae'r hyfforddiant hwn wedi paratoi staff yn well i gefnogi aelodau o'r cyhoedd e.e. defnyddio seinyddion clyfar i atgoffa defnyddwyr gwasanaethau i gymryd meddyginiaeth; a staff y llyfrgell yn gallu cynghori defnyddwyr a'u helpu gyda cheisiadau ar-lein, megis ceisiadau am Fathodyn Glas.

8.12 Roedd yr adborth gan awdurdodau lleol a oedd yn rhan o'r astudiaethau achos yn gadarnhaol, gan awgrymu bod cyngor CDC wedi cefnogi blaenoriaethau'r awdurdod lleol. Roedd yr adborth ar ansawdd y ddarpariaeth hefyd yn gadarnhaol:

> ‘Fel uwch reolwr sydd â llawer o bethau ar fy mhlât, mae'r ffaith bod gennym arbenigwyr yn ein helpu ni wedi rhoi hyder i mi… rwyf wastad wedi teimlo bod Cwmpas wedi bod yn dda iawn am ymgysylltu â staff ar draws y sefydliad cyfan, ac felly mae pobl eisiau gweithio gyda nhw.' [Awdurdod lleol]

8.13 Mae astudiaeth achos un awdurdod lleol yn dangos gwerth rhaglen CDC i'w sefydliad, a goblygiadau tynnu'r cymorth a'r hyfforddiant yn ôl o fis Ebrill 2024 ymlaen:

Roedd awdurdod lleol yn cydnabod yr angen i wella sgiliau digidol ei weithlu ond nid oedd ganddo arbenigedd mewnol i asesu'r bylchau yn ei sgiliau digidol. Cynorthwyodd CDC yr awdurdod i gynnal archwiliad sgiliau digidol, gan ddarparu templedi a chanllawiau, a ddangosodd fod sgiliau digidol yn gryf yn gyffredinol ond bod gan rai pocedi o staff, megis y rhai sy'n gweithio mewn cartrefi gofal a depos, sgiliau cyfyngedig. Amlygodd yr archwiliad sgiliau hefyd y galw gan staff eraill am hyfforddiant digidol uwch ar feddalwedd fel Power BI. Caniataodd yr archwiliad i'r awdurdod flaenoriaethu ei ffocws ar gyfer y dyfodol.

Fe wnaeth CDC gynorthwyo'r awdurdod i hyfforddi Cyfeillion Digidol o bob adran, a fyddai'n cefnogi eu cydweithwyr. Yn ogystal â hynny, cyflwynodd CDC raglen o sesiynau hyfforddi sgiliau digidol mwy cyffredinol ar gyfer y gweithlu ehangach mewn ymateb i geisiadau penodol:

'Fe wnes i ganfod bod un maes gwasanaeth wedi rhoi iPhones i weithwyr casglu sbwriel…ac eisiau i staff ddefnyddio cod QR i adrodd am ddigwyddiadau. Yr unig broblem oedd nad oedd neb wedi rhoi unrhyw hyfforddiant i'r staff ar hyn, ac roedd llawer o staff yn cael anhawster. Cytunodd [CDC] i anfon rhywun allan i'n depos i gynnal sesiynau hyfforddi ar yr iPhones…fe wnaeth wahaniaeth mawr i'r aelodau hynny o staff'.

Ers y newid yn rhaglen waith CDC ym mis Mawrth 2024, nid yw'r awdurdod lleol wedi gallu llenwi'r bwlch oherwydd diffyg arbenigedd ac adnoddau mewnol. Mae'r cynnydd ar gynhwysiant digidol wedi arafu rhywfaint ac mae'r fenter Cyfeillion Digidol wedi colli momentwm ac aelod allweddol o staff wedi gadael ei swydd. Mae’r swydd wedi cael ei llenwi’n ddiweddar ac mae'r awdurdod yn ystyried chwilio am hyfforddiant amgen i gyflwyno’r ddarpariaeth:

'Mae'r newid hwn yn sicr wedi gadael bwlch, a nawr mae angen i ni edrych ar sut i gynnal hyfforddiant effeithiol ar gyfer ein staff. Roedd darpariaeth CDC yn ymatebol ac wedi'i deilwra i'n hanghenion, felly ni fydd yn hawdd dod o hyd i rywbeth i gymryd lle y lefel honno o gefnogaeth'.

8.14 Mae astudiaeth achos o awdurdod lleol arall yn dangos sut y mae CDC wedi cefnogi’r sefydliad i ddatblygu ei strategaeth ddigidol, ac yn fwy cyffredinol sut y mae’r sefydliad bellach yn darparu cymorth cynhwysiant digidol yn uniongyrchol i breswylwyr:

Fe wnaeth CDC helpu awdurdod lleol i ddatblygu ei strategaeth ddigidol, gyda chymorth a oedd yn cynnwys mewnwelediadau a chanllawiau arfer gorau. Roedd uwch arweinydd yn yr awdurdod yn hyrwyddo cynhwysiant digidol, gan greu rolau fel Rheolwr a Swyddog Cynhwysiant Digidol i wthio'r strategaeth yn ei blaen.

'Mae yna deimlad gwirioneddol eu bod yn cerdded ochr yn ochr â ni, ac maent hefyd wedi bod yn gadarnhaol iawn hefyd'.

Mae’r Swyddog Cynhwysiant Digidol wedi gweithio gydag Openreach i wella mynediad at fand eang i unigolion a busnesau. Roedd un prosiect yn ymwneud â sicrhau rhyngrwyd ffeibr ar gyfer clwstwr o gartrefi lle yr oedd preswylwyr wedi cael trafferth yn flaenorol gyda chysylltedd gwael, gan effeithio ar waith ac astudiaethau. Ar ôl dros flwyddyn o gydweithio, gosododd Openreach fand eang ffeibr llawn, gan wella ansawdd bywyd y preswylwyr yn sylweddol a chefnogi sefydlogrwydd a thwf cymunedol. Nododd un preswylydd:

'Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ni fel teulu ac i'n cymdogion. Mae wedi cadw pobl ifanc lleol yn yr ardal a denu pobl ifanc eraill yma.'

Tai cymdeithasol

8.15 Mae'r ddwy astudiaeth achos a ganlyn yn helpu i ddangos sut y mae CDC wedi cefnogi'r sector tai cymdeithasol, a'r canlyniadau a gyflawnwyd o'r ymyriadau hyn. Mae'r astudiaeth achos gyntaf yn ymwneud â phrosiect cenedlaethol eCymru, sy'n helpu i ddangos sut y mae CDC wedi gweithio gyda'r sector tai cymdeithasol mewn ffordd strategol tra bod yr ail yn canolbwyntio ar y cymorth a ddarperir i ddarparwr tai cymdeithasol sy'n gweithio gyda thenantiaid ag anableddau dysgu[36].

Prosiect eCymru[37]

Mae CDC wedi cefnogi'r sector tai cymdeithasol yn strategol ledled Cymru drwy brosiect eCymru, sef dull o fynd i'r afael ag anghenion cynhwysiant digidol y sector tai cymdeithasol ehangach ledled Cymru. Chwaraeodd CDC ran hollbwysig wrth gysylltu â darparwyr tai cymdeithasol, gan froceru trefniadau a arweiniodd at sefydlu model aelodaeth eCymru. Mae CDC yn parhau i hyrwyddo'r prosiect eCymru i sefydliadau tai cymdeithasol nad ydynt yn aelodau ohono eto.

Mae menter eCymru yn rhoi cynnwys CDC ar ei blatfform, gan roi mynediad i aelodau i ystod o gyrsiau ac adnoddau digidol. Gall staff a thenantiaid gael mynediad at yr adnoddau hyn.

Mae cynnydd menter eCymru wedi galluogi tenantiaid i gymryd rhan mewn mwy o sesiynau digidol, gan ehangu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael ar draws y rhwydwaith a chynnig mwy o ddewis i denantiaid. Ar ôl cwblhau'r cyfnod peilot, mae gan eCymru bellach gynllun prosiect ar waith tan 2028.

[36] Rydym yn cydnabod nad yw'r term 'anableddau dysgu' yn gydnaws â'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Fodd bynnag, dewiswyd y derminoleg hon gan sefydliadau a oedd yn cynrychioli pobl ag anableddau dysgu.
Mae'r defnydd parhaus o'r term 'anableddau dysgu' a ddeellir yn eang yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru, yn arbennig gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu sy'n darparu cyngor annibynnol a her i weinidogion ac sy'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad bywyd, cyrff cynrychioliadol, gweithwyr proffesiynol, a sefydliadau o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

[37] eCymru – events for the community

Fel partner allweddol mae CDC yn parhau i ddarparu cyngor arbenigol a rhannu arfer gorau gyda'r grŵp.

Disgrifiodd un darparwr tai cymdeithasol y datblygiad fel un buddiol iawn i'r sector. Nodwyd bod y fenter wedi cynnig llwyfan i gymdeithasau tai rannu a chael mynediad at adnoddau digidol, gan ganiatáu iddynt gynnig ystod ehangach o weithgareddau ac adnoddau i denantiaid. Mae tenantiaid wedi elwa o weithgareddau digidol fel sesiynau côr, cwisiau, bingo, a sesiynau diwylliannol Cymreig ar-lein. Mae cronni adnoddau hefyd wedi bod yn gosteffeithiol ac wedi galluogi darparwyr i gomisiynu gwaith a fyddai wedi bod yn rhy ddrud i'w wneud yn annibynnol ar ei gilydd:

'Mae pawb yn dod â gwahanol arbenigedd i'r prosiect, a thrwy gronni ein hadnoddau, gallwn bellach fforddio cynnig ystod llawer ehangach o weithgareddau a chynnwys i'n tenantiaid.'

Pwysleisiwyd rôl allweddol CDC wrth sefydlu a datblygu eCymru sydd wedi galluogi darparwyr tai cymdeithasol i gael mynediad at gymorth ac adnoddau ychwanegol gan CDC ac wedi rhoi mwy o strwythur a momentwm iddynt gyflwyno gweithgareddau cynhwysiant digidol ar draws eu sefydliad.

Tenantiaid tai cymdeithasol ag anableddau dysgu

Mae darparwr tai cymdeithasol sy'n cefnogi tenantiaid ag anableddau dysgu wedi mabwysiadu dull rhagweithiol o weithredu ei gynllun Cynhwysiant Digidol. Agweddau allweddol ar y cydweithio â CDC fu'r cymorth ymarferol, ymweliadau rheolaidd â lleoliadau tenantiaid, datrys problemau, a hyfforddiant.

Yn ddiweddar, mae'r sefydliad wedi creu dwy swydd newydd, Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid a Chydlynydd Iechyd a Llesiant, a fydd yn galluogi'r sefydliad i ganolbwyntio ar weithgarwch cynhwysiant digidol wedi'i dargedu yn y dyfodol.

Mae gwaith CDC gyda'r darparwr tai cymdeithasol wedi cynnwys amrywiaeth o fentrau, megis y prosiect '7 Diwrnod o Ddigidol', lle y

cofnododd y tenantiaid eu defnydd dyddiol o dechnoleg megis defnyddio offer digidol i'w hatgoffa, i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu ac i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein, gan roi cipolwg ar y ffyrdd ymarferol yr oedd yn gallu gwella eu bywydau.

Canmolwyd y rhaglen CDC am ei hymrwymiad, ei hegni a'i hyblygrwydd. Yn sgil y cydweithio hwn, daeth y darparwr yn ail yn y categori 'Rhagoriaeth Ddigidol' yng Ngwobrau Tai Cymru.

Mae CDC hefyd wedi darparu cefnogaeth a gafodd ei chroesawu'n frwd ar ffurf hyfforddiant digidol a sesiynau datrys problemau, gyda thenantiaid yn dod â dyfeisiau ar fenthyg i sesiynau er mwyn datrys unrhyw broblemau sydd ganddynt. Mae ymrwymiad CDC i ôl-ofal a chefnogaeth barhaus wedi bod yn hollbwysig i sicrhau bod tenantiaid yn gwneud defnydd hirdymor o'r dechnoleg.

Un o'r canlyniadau arwyddocaol, a fu'n bosibl o ganlyniad i'r bartneriaeth gyda CDC, yw sefydlu Panel Tenantiaid, sy'n caniatáu i denantiaid fynychu cyfarfodydd yn rhithwir, gan roi llais iddynt ym mhroses benderfynu'r sefydliad.

'Erbyn hyn mae gennym banel o tua 10-15 o denantiaid sy'n mynychu'n rheolaidd gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r cyfarpar digidol y mae CDC wedi eu rhoi iddyn nhw'

Mae'r cydweithio wedi cael effaith gadarnhaol ar denantiaid a staff fel ei gilydd. Mae defnyddio offer digidol wedi grymuso tenantiaid, wedi gwella mynediad at wasanaethau, ac wedi lleihau ynysu cymdeithasol. Mae hyblygrwydd y rhaglen wedi galluogi pob tenant i elwa yn ei ffordd ei hun. Roedd y darparwr tai yn credu bod hyd yn oed ddefnydd syml o dechnoleg, fel gwylio YouTube neu chwarae gemau, yn gallu cael ei weld fel llwyddiant, a dylai’r rhaglen barchu taith ddigidol unigol pob tenant.

Sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl

8.16 Mae’r adran hon yn seiliedig ar adborth gan ddau sefydliad sy’n cefnogi pobl anabl:

Mae menter gymdeithasol sy'n gysylltiedig â chymdeithas dai wedi gweithio'n agos â CDC i gefnogi tenantiaid a phreswylwyr gyda sgiliau digidol a mynediad at ddyfeisiau. Mae cymorth a ddarparwyd gan CDC wedi cynnwys:

- hyfforddiant sgiliau digidol: mae'r fenter gymdeithasol yn cynnig cyrsiau sgiliau digidol hanfodol i denantiaid a phreswylwyr, wedi'u hategu gan sesiynau 'hyfforddi'r-hyfforddwr' CDC. Mae'r sesiynau hyn yn grymuso staff a gwirfoddolwyr i ddarparu hyfforddiant sgiliau digidol ymarferol, wedi'i dargedu'n arbennig at oedolion hŷn a phobl anabl y mae angen cymorth arnynt i ddefnyddio dyfeisiau a'r rhyngrwyd.
- mynediad at ddyfeisiau: mae CDC yn darparu dyfeisiau llechen i'r fenter gymdeithasol ar gyfer preswylwyr mewn llety gwarchod, gan hwyluso mynediad gwell at adnoddau digidol. Mae'r bartneriaeth hon hefyd yn cynnwys helpu gwirfoddolwyr a phreswylwyr i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio'r dyfeisiau hyn yn annibynnol, gan feithrin cynhwysiant cymdeithasol a chysylltedd
- dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y gymuned: yn fwy diweddar mae'r fenter gymdeithasol wedi canolbwyntio ar roi asesiad MDLS ar waith i werthuso anghenion digidol pob tenant newydd, gan ganiatáu ar gyfer cymorth wedi'i deilwra.

Drwy fentrau digidol sy'n pontio'r cenedlaethau, mae CDC yn cefnogi dull gweithredu'r fenter gymdeithasol drwy feithrin ymgysylltiad digidol ar draws grwpiau oedran.

Mae elusen anabledd dysgu arall wedi gweithio gyda CDC i wneud adnoddau digidol yn fwy hygyrch i'w haelodau:

- darpariaeth hyfforddiant: mae'r elusen a CDC yn cynnig hyfforddiant sgiliau digidol ar y cyd i weithwyr cymorth, aelodau o'r teulu, ac unigolion ag anableddau dysgu. Mae CDC yn darparu adnoddau technoleg ymaddasol, gan sicrhau bod unigolion ag anableddau dysgu yn cael canllawiau wedi'u teilwra i'w galluogi i gyfranogi'n ddigidol.
- cefnogi'r prosiect 'Ffrindiau Gig': mae CDC yn cefnogi menter 'Ffrindiau Gig' yr elusen, sy'n paru pobl anabl â gwirfoddolwyr sy'n rhannu

diddordebau tebyg, gan eu galluogi i fynychu digwyddiadau gyda'i gilydd. Mae’r prosiect hwn yn helpu i leihau ynysu cymdeithasol ac yn meithrin cyfeillgarwch drwy fynediad digidol a rennir
- mynd i’r afael ag ynysu cymdeithasol: ehangodd ymdrechion CDC yn ystod COVID-19 i gynnwys offer digidol mwy hygyrch a hyfforddiant i helpu pobl ag anawsterau dysgu i gadw mewn cysylltiad.

Canlyniadau ac effeithiau

Prif fanteision darpariaeth CDC ar gyfer y sefydliadau hyn yw:

- gwell sgiliau digidol a mwy o hyder: mae cefnogaeth CDC wedi grymuso staff a gwirfoddolwyr ar draws y ddau sefydliad i ddarparu hyfforddiant sgiliau digidol yn hyderus. Mae llawer o gyfranogwyr, gan gynnwys pobl anabl, bellach yn teimlo'n fwy cyfforddus yn defnyddio offer digidol ar gyfer tasgau bob dydd, cysylltiadau cymdeithasol, ac i gael mynediad at wasanaethau
- ymwreiddio cynhwysiant digidol: nododd pob sefydliad sut yr oedd cymorth CDC wedi troi cynhwysiant digidol o fod yn ‘ychwanegiad arbenigol’ i fod yn elfen graidd o’i waith, gyda thechnoleg ymaddasol yn dod yn fwy cyffredin ac yn brif ffrwd o ran ei defnydd:
- mwy o gysylltedd cymdeithasol a llai o ynysu: fe wnaeth gwaith CDC yn ystod COVID-19 ehangu cyfleoedd ymgysylltu digidol i bobl ag anawsterau dysgu. Roedd y cysylltiad hwn yn caniatáu i bobl gadw mewn cysylltiad ag anwyliaid ac ymgysylltu'n gymdeithasol drwy ddigwyddiadau rhithwir, gan leihau teimladau oynysu yn sylweddol. Er enghraifft, roedd y fenter Gig Buddies wedi galluogi llawer i fynychu digwyddiadau a meithrin cyfeillgarwch:

'Rwy'n gweld CDC fel rhyw fath o fam gwmni digidol yng Nghymru a dweud y gwir. Dyma yw ein pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw gymorth.'

Edrych i'r dyfodol

Mae'r partneriaethau gyda CDC wedi dangos yr angen parhaus am gynhwysiant digidol ar draws amrywiol ddemograffeg i ddileu anghydraddoldeb. Mae’r ddau sefydliad yn parhau i flaenoriaethu cynhwysiant digidol drwy ehangu mynediad i ddyfeisiau, mireinio

hyfforddiant sgiliau digidol, a hyrwyddo technoleg ymaddasol ar draws eu cymunedau.

Mae un sefydliad yn bwriadu ymestyn cyrhaeddiad offer digidol hygyrch, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac mae'r llall yn canolbwyntio ar gynnal asesiadau MDLS i ddiwallu anghenion digidol y tenantiaid yn well.

Drwy ddarparu adnoddau, hyfforddiant a chefnogaeth hanfodol, mae CDC wedi grymuso'r sefydliadau hyn i bontio'r gagendor digidol, gwella llesiant a chefnogi ymgysylltiad cymunedol ystyrlon ar gyfer pobl anabl

Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

8.17 Mae’r adran hon yn seiliedig ar adborth gan staff CDC yn ogystal â chynrychiolydd o sefydliad sy’n cefnogi cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru:

Deilliodd y fenter o angen a nodwyd am hyfforddiant sgiliau digidol ar gyfer Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn enwedig yn dilyn digwyddiad a gynhaliwyd gan sefydliad sy'n cefnogi'r gymuned hon a fynychwyd gan gynrychiolwyr CDC a amlygodd yr heriau allweddol a wynebir gan y grwpiau hyn.

Siaradodd cydweithwyr CDC â'r sefydliad yn y digwyddiad a rhoi gwybodaeth gefndir am y cymorth sydd ar gael. Mewn cyfarfodydd dilynol rhwng CDC a staff y sefydliad, nodwyd problemau allweddol sy'n wynebu'r gymuned gan gynnwys mynediad cyfyngedig i dechnoleg, lefel isel o lythrennedd digidol, a diffyg ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael.

Gweithredu

Mae cefnogaeth CDC dros y chwe mis diwethaf wedi cynnwys:

- hyfforddiant: cynhaliodd cynghorydd CDC sesiynau hyfforddi sylfaenol, gan gynnwys cwrs Hyrwyddwyr Digidol a chwrs Sgiliau Digidol Hanfodol, ar gyfer staff. Nod yr hyfforddiant hwn oedd grymuso staff i gynorthwyo aelodau eu cymuned yn well
- benthyg dyfeisiau: DCWDarparodd CDC dair dyfais llechen Android a thri Apple iPad i'r sefydliad i'w benthyg i aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Nod y fenter hon oedd cynyddu mynediad digidol,

gan alluogi unigolion i ymarfer sgiliau hanfodol a defnyddio adnoddau ar-lein

- allgymorth ac ymgysylltu: rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024, dwysaodd yr ymdrechion allgymorth. Bu CDC yn gweithio'n agos gyda'r sefydliad, gan hwyluso ymgysylltiad o ddrws i ddrws ar safle Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghaerdydd, a bu hynny o gymorth i ennyn ymddiriedaeth a chreu perthynas ag aelodau'r gymuned:

'Mae'r diwylliant mor wahanol i grwpiau traddodiadol y mae CDC yn gweithio gyda nhw. Allwn ni ddim cymryd yn ganiataol bod ganddyn nhw unrhyw wybodaeth - ond allwn ni ddim bod yn nawddoglyd chwaith'

- gweithgareddau cymunedol: trefnodd CDC glybiau cyfrifiaduron a digwyddiadau agored mewn mannau cymunedol. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys amgylcheddau dysgu anffurfiol lle y gallai cyfranogwyr archwilio technoleg heb unrhyw bwysau, gan feithrin awyrgylch cefnogol ar gyfer datblygu sgiliau digidol
- datblygu adnoddau: datblygodd cynghorydd CDC adnoddau rhyngweithiol, megis cwis prawf theori gyrru ar ffurf PowerPoint wedi'i deilwra ar gyfer lefelau isel o lythrennedd, gan ei wneud yn fwy hygyrch i aelodau'r gymuned. Bu'r adnodd hwn o gymorth i unigolion basio eu profion gyrru, sy'n hanfodol ar gyfer eu hannibyniaeth.

Canlyniadau ac Effeithiau

Mae prif ganlyniadau'r gwaith hwn yn cynnwys:

- cynnydd mewn sgiliau digidol: dywedodd y staff fod y cyfranogwyr wedi magu hyder wrth ddefnyddio dyfeisiau digidol ar gyfer tasgau bob dydd, fel gwirio amseroedd trenau, llunio CV, chwilio am swyddi a chael mynediad at adnoddau addysgol. Er enghraifft, llwyddodd un fenyw, a gafodd drafferth gyda thechnoleg i ddechrau, i ddod yn fedrus wrth ddefnyddio dyfais llechen ar gyfer amrywiol weithgareddau ar-lein
- gwell iechyd a llesiant: dywedodd y staff fod y sgiliau digidol a ddysgwyd gan y cyfranogwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant, gan leihau teimladau o unigrwydd ac ynysigrwydd drwy wella

cysylltiadau cymdeithasol drwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook

- llwyddiant mewn profion theori gyrru: mae sawl aelod o'r gymuned wedi llwyddo i wella eu perfformiad mewn profion theori gyrru, sy'n garreg filltir arwyddocaol i lawer sy'n dibynnu ar yrru am gyfleoedd symudedd a chyflogaeth
- mwy o hyder a chwalu rhwystrau: dywedodd y staff y bu cynnydd nodedig mewn hyder ymhlith aelodau'r gymuned sydd wedi manteisio ar y cymorth, o ran eu sgiliau a'u galluoedd ac o ran cael mynediad at wasanaethau ar-lein (fel bancio ar-lein).

Edrych i'r dyfodol

Mae'r sefydliad wedi gweld gwelliant sylweddol yn ei arferion cynhwysiant digidol. Mae'r cydweithio gyda CDC wedi grymuso staff drwy roi'r sgiliau angenrheidiol iddynt allu darparu cymorth uniongyrchol, gan arwain at fwy o hyder wrth fynd i'r afael ag anghenion y gymuned. Mae'r sefydliad hefyd wedi ysgogi sefydlu clybiau cyfrifiaduron ac wedi sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer dyfeisiau i barhau i gefnogi'r gymuned y tu hwnt i brosiect CDC.

'Mae'r cyfan wedi bod yn ddefnyddiol. Hebddo, ni fyddem wedi gwneud cymaint o gynnydd'

Nod CDC yw cynnal y momentwm tan ddiwedd cyfnod cyllido CDC ac mae'n bwriadu parhau i ddarparu'r clybiau cyfrifiaduron yn ogystal ag ymgysylltu â safleoedd ychwanegol ym Merthyr, Sir Gaerfyrddin a Gogledd Cymru ac archwilio'r defnydd o ddyfeisiau ar gyfer pethau ymarferol, megis archebu ar-lein a chael mynediad at wasanaethau. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i barhau â'r ymdrechion hyn ar ôl i CDC ddod i ben, ac mae eisoes wedi buddsoddi mewn dyfeisiau ychwanegol i sicrhau parhad y gwaith cynhwysiant digidol.

'Nid dyma fydd diwedd y daith. Byddwn yn parhau â'r gwaith'.

9. Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru

9.1 Mae’r bennod hon yn ystyried gwaith Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (CCDC) ac mae'n seiliedig ar ein hadolygiad desg o ddogfennau allweddol, trafodaethau grŵp ffocws mewn cyfarfod o’r CCDC a gynhaliwyd ym mis Medi 2024, a chyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru, staff cyflawni'r rhaglen a sefydliadau a gefnogir. Mae hefyd yn seiliedig ar ein harolwg annibynnol a ddosbarthwyd i aelodau CCDC[38]. Dosbarthwyd yr arolwg i 139 o aelodau a daeth 38 o ymatebion i law, sef cyfradd ymateb o 27%.

9.2 Mae adborth gan y cyfranwyr yn awgrymu bod pwrpas CCDC wedi dod yn gliriach dros amser, a bod ffocws cynyddol ac agenda gliriach wedi cael eu rhoi ar waith. Amlinellodd CCDC ei hagenda ar gyfer cynhwysiant digidol 'O Gynhwysiant i Wydnwch' am y tro cyntaf yn 2021 a chafodd ei diweddaru yn 2023[39]. Roedd yr agenda yn nodi pum maes blaenoriaeth sydd wedi llywio gwaith CCDC.

9.3 Mae’r CCDC yn cyfarfod bron bob chwarter, ac mae'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ers mis Hydref 2023 wedi canolbwyntio ar feysydd gwaith blaenoriaeth unigol e.e. roedd cyfarfod Hydref 2023 yn canolbwyntio ar Flaenoriaeth 2. Croesawodd y cyfranwyr y datblygiad hwn, gan ei fod wedi caniatáu trafodaeth fanwl ar bob maes blaenoriaeth.

9.4 Mae aelodaeth CCDC wedi cynyddu dros amser, ac adeg paratoi’r adroddiad hwn roedd ganddo 139 o aelodau o’r sector cyhoeddus, y trydydd sector, y sector preifat a'r sector academaidd. Etholir nifer bach o aelodau i ffurfio grŵp llywio[40] er mwyn goruchwylio gwaith CCDC. Roedd y rhai a gyfrannodd at y gwerthusiad o’r farn bod strwythur llywodraethu CCDC yn briodol ar y cyfan, wedi’i arwain gan gadeirydd cryf a

[38] Nid ydym yn darparu unrhyw ganrannau wrth ddadansoddi data’r arolwg, o ystyried y nifer bach o ymatebion. Yn hytrach, ac er mwyn bod yn gyson, rydym yn defnyddio’r termau canlynol i ddisgrifio cyfrannau drwy gydol yr adroddiad hwn: Bron pawb=gydag ychydig iawn o eithriadau; Y rhan fwyaf =90% neu fwy; Llawer=70% neu fwy; Mwyafrif=dros 60%; Hanner=50%; Tua hanner=Yn agos at 50%; Lleiafrif=Llai na 40%; Ychydig=o dan 20% ac Ychydig iawn=Llai na 15%
[39] O gynhwysiant i wydnwch – agenda ar gyfer cynhwysiant digidol yng Nghymru
[40] Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru - Grŵp Llywio (llyw.cymru)

chefnogaeth ysgrifenyddol effeithiol. Croesawyd hefyd ffurfio grŵp llywio etholedig llai o faint.

9.5 Yn ei hadroddiad cynnydd diweddaraf (Gorffennaf 2024) o'r enw 'Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: O Gynhwysiant i Wydnwch' mae CCDC yn cadarnhau mai ei ddiben yw 'cydweithio i greu Cymru sy'n gynhwysol yn ddigidol'. Noda'r cynnydd a wnaed gan CCDC yn erbyn ei phum maes blaenoriaeth yn ogystal â'i gweledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran y meysydd blaenoriaeth hyn. Y pwyntiau allweddol a wneir yn yr adroddiad cynnydd yw:

- Blaenoriaeth 1 - Gwreiddio cynhwysiant digidol ar draws pob sector: noda fod i CCDC yn chwarae rhan bwysig o ran dod â sefydliadau amrywiol ynghyd i helpu ei gilydd i ymwreiddio cynhwysiant digidol a chymryd perchnogaeth ohono
- Blaenoriaeth 2 - Prif ffrydio cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: mae'n adrodd bod cynnydd amlwg wedi bod mewn ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol ar draws y Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2023) o gymharu â strategaeth flaenorol 2015
- Blaenoriaeth 3 - Mynd i'r afael â thlodi data fel prif broblem: mae'r argyfwng costau byw parhaus yn gwaethygu tlodi data ac allgáu digidol sy'n golygu bod angen mwy o gymorth
- Blaenoriaeth 4 - Blaenoriaethu sgiliau digidol hanfodol ar gyfer gwaith a bywyd yn yr economi: dangosodd arolwg o aelodau CCDC ym mis Rhagfyr 2023 mai dim ond 13% a oedd yn cytuno bod y ddarpariaeth bresennol o hyfforddiant sgiliau digidol i oedolion yng Nghymru yn ddigonol
- Blaenoriaeth 5 - Gweithredu safon byw ddigidol ofynnol newydd: Mae cysylltiad agos rhwng CCDC â'r ymchwil ar MDLS, ac mae'r aelodau wedi cefnogi'r ymchwil.

9.6 Rhwng mis Hydref 2023 a mis Mehefin 2024, cyhoeddodd CCDC bedwar adroddiad yn ymwneud â'i feysydd blaenoriaeth (ac eithrio Blaenoriaeth 3).

Roedd y rhain yn seiliedig ar drafodaethau cyfarfodydd rhwydwaith ac adborth gan yr aelodau. O blith yr aelodau hynny a roddodd adborth yn uniongyrchol i CCDC ar y pryd[41]:

- roedd 96% yn credu bod CCDC yn cael effaith gadarnhaol ar sefydliadau o ran ymwreiddio cynhwysiant digidol (Blaenoriaeth 1)
- roedd 90% yn credu bod CCDC yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (Blaenoriaeth 2)
- roedd 76% yn credu bod CCDC yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddarparu hyfforddiant sgiliau digidol yng Nghymru (Blaenoriaeth 4)
- roedd 96% yn credu bod CCDC wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwaith o greu'r MDLS (Blaenoriaeth 5)

Proffil aelodau CCDC a gymerodd ran yn yr arolwg

9.7 Roedd llawer o'r ymatebwyr hyn yn dod o sefydliadau yn y trydydd sector (15) neu'r sector cyhoeddus (14). Roedd y lleiafrif a oedd yn weddill wedi'u lleoli mewn sefydliadau yn y sector preifat (5), y byd academaidd (3) neu fath arall o leoliad (1)[42]. Yn ogystal â bod yn aelodau o rwydwaith CCDC, roedd pedwar o blith y 38 o ymatebwyr hefyd yn aelodau o grŵp llywio CCDC.

9.8 Mae Ffigur 9.1 yn nodi pa mor aml y mynychodd yr ymatebwyr i'r arolwg gyfarfodydd CCDC yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn gyffredinol, mae'n dangos bod yr ymatebwyr yn mynychu'n weddol gyson, gyda bron pob un yn mynychu o leiaf rai o'r sesiynau a gynhaliwyd, sy'n awgrymu eu bod yn gweld gwerth mewn mynychu'r cyfarfodydd.

[41] Roedd nifer yr aelodau a roddodd adborth yn amrywio, gyda rhwng 30 a 45 o aelodau yn ymateb i bob un.
[42] Ni nododd yr ymatebydd y math o leoliad.

Ffigur 9.1: Amlder mynychu cyfarfodydd CCDC dros y flwyddyn flaenorol



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (38 o ymatebion)

Proffil o'r aelodau

9.9 Dengys Ffigur 9.2 fod pob un ond dau o'r ymatebwyr i'r arolwg yn credu bod amrywiaeth dda ymhlith aelodau CCDC, gan awgrymu bod y gynghrair wedi llwyddo i ehangu ei haelodaeth yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd llawer o'r ymatebwyr i'r arolwg hefyd o'r farn bod gan CCDC gynrychiolaeth dda o'r sector iechyd ac roedd y mwyafrif yn credu bod cynrychiolaeth dda o'r sector gofal. Wrth ddarparu sylwadau penagored, un cryfder allweddol oedd y gynrychiolaeth o 'ystod eang o sectorau' er bod un ymatebydd i'r arolwg wedi nodi yr hoffai weld 'mwy o bresenoldeb gan sefydliadau gofal cymdeithasol a gofal cymdeithasol o'r trydydd sector'.

Ffigur 9.2: Amrywiaeth a chynrychiolaeth ymysg aelodau CCDC



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (38 o ymatebion)

9.10 Mae adborth a gasglwyd drwy gyfweliadau a thrafodaethau grŵp ffocws gydag aelodau o'r CCDC yn cefnogi canfyddiadau'r arolwg hyn i raddau helaeth. Teimlai'r cyfranogwyr fod y CCDC wedi gwneud cynnydd da o ran cynyddu ac ehangu ei aelodaeth. Ystyriwyd bod cyfraddau presenoldeb uchel mewn cyfarfodydd (fel arfer gyda 40 i 50 o aelodau yn bresennol) ac ymgysylltiad cryf â thrafodaethau yn cael eu hystyried yn arwydd o werth CCDC.

9.11 Fodd bynnag, er bod mwy o gynrychiolaeth bellach gan rai grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, megis Cymdeithas Sbaenwyr ac Iberiaid Cymru, mae ymgysylltu â'r grwpiau hyn yn parhau i fod yn her. At hynny, nodwyd bod cynrychiolaeth o grwpiau cymunedol Cymraeg yn is na'r disgwyl. Er bod rhai aelodau yn dod o sefydliadau'r sector preifat, awgrymwyd y gellid ehangu'r aelodaeth hon ymhellach. At hynny, awgrymwyd hefyd y byddai'r CCDC yn elwa o gael cynrychiolaeth ehangach o awdurdodau lleol, yn enwedig o'u hadrannau TG.

Gwerth CCDC

9.12 Fel y dangosir yn Ffigur 9.3, y brif agwedd yr oedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn ei chael yn ddefnyddiol drwy fod yn aelod o CCDC oedd y cyfle i rannu profiadau ag eraill, a nodwyd hynny gan y rhan fwyaf o ymatebwyr. Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg hefyd yn gwerthfawrogi gallu cael mynediad at

arferion da yn ymwneud â chynhwysiant digidol a chlywed gan siaradwyr allanol ac arbenigwyr. Ystyriwyd bod CCDC yn llai defnyddiol fel dull o ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn gweld bod CCDC yn 'fforwm hynod werthfawr' a oedd yn rhoi cyfle iddynt 'ddal i fyny gyda datblygiadau'. Dywedodd un hefyd fod CCDC yn ddefnyddiol i ddysgu oddi wrth 'sefydliadau sy'n agosach at y rhai mewn angen' er mwyn iddynt allu addasu eu gwasanaethau eu hunain yn well.

Ffigur 9.3: Pa mor ddefnyddiol yw bod yn aelod o CCDC



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (38 o ymatebion)

9.13 Roedd y rhai a gyfwelwyd a'r cyfranwyr at y grwpiau ffocws yn rhoi'r un gwerth ar y ffaith bod CCDC yn grŵp cyfnewid gwybodaeth defnyddiol i rannu profiadau ag eraill, yn enwedig gyda sefydliadau o sectorau gwahanol i'w sectorau hwy, gan fod hyn yn helpu i herio 'gweithio mewn seilos'. Roedd y rhwydwaith yn cael ei ystyried yn fforwm defnyddiol ar gyfer rhannu arferion da a hwyluso cysylltiadau rhwng pobl, pobl na fyddent efallai wedi dod ar eu traws fel arall.

9.14 Amlygodd y cyfranwyr hefyd fod CCDC yn datblygu i fod yn gorff cydnabyddedig o sefydliadau. Er enghraifft, gofynnwyd i CCDC roi tystiolaeth i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar gynhwysiant digidol yng

Nghymru, gan awgrymu bod y rhwydwaith yn magu momentwm ac yn cael ei ystyried yn gynyddol fel ‘un llais’ mewn perthynas â chynhwysiant digidol.

9.15 Roedd pob ymatebydd i'r arolwg heblaw un yn gosod gwerth sylweddol, neu ychydig o werth ar CCDC fel mecanwaith ar gyfer gwneud Cymru’n genedl ddigidol gynhwysol, fel y dangosir yn Ffigur 9.4.

Ffigur 9.4: Y gwerth a osodir ar CCDC fel mecanwaith ar gyfer gwneud Cymru yn genedl ddigidol gynhwysol



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (38 o ymatebion)

Siarter Cynhwysiant Digidol

9.16 Mae'n ofynnol i aelodau CCDC fabwysiadu'r Siarter Cynhwysiant Digidol[43] ac ymrwymo i chwe adduned allweddol i ddangos eu hymrwymiad i hyrwyddo sgiliau digidol sylfaenol a helpu pobl i fynd ar-lein. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr i'r arolwg, sef 20 o blith 38, wedi mabwysiadu’r Siarter Cynhwysiant Digidol tra bod lleiafrif arall (naw) yn gweithio ar hynny adeg yr arolwg. Nid oedd un ymatebydd i'r arolwg wedi dechrau gweithio arni ac nid oedd yr wyth arall yn gwybod.

9.17 Ar lefel ehangach, roedd adborth gan staff cyflawni CDC yn awgrymu bod y rhan fwyaf o aelodau CCDC wedi mabwysiadu'r Siarter, er bod sefydliadau'n ei dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Fel y dangosir mewn rhai o'r astudiaethau achos ym Mhennod 8, mae rhai sefydliadau'n cofleidio

[43] Siarter Cynhwysiant Digidol

egwyddorion y Siarter yn llawn ac yn ei defnyddio i ategu eu dull o sicrhau cynhwysiant digidol, tra bod eraill yn ei ystyried yn ymarfer 'ticio bocsys'.

9.18 Esboniodd rhai ymatebwyr i'r arolwg y gwahaniaeth yr oedd mabwysiadu'r siarter wedi'i wneud i'w sefydliadau, gan roi pwyslais ar y ffaith ei bod yn helpu i godi ymwybyddiaeth a darparu fframwaith priodol ar gyfer gweithredu:

- 'cododd y siarter broffil cynhwysiant digidol o fewn y sefydliad'
- 'darparodd fframwaith i ni ymgorffori cynhwysiant digidol'
- 'mae'n ddefnyddiol iawn i'n helpu i fod yn ymwybodol o'r agenda cynhwysiant digidol a'n cadw ar y trywydd iawn, gan greu camau gweithredu ynghylch ein cynhwysiant digidol a chadw'r sgwrs i fynd.'

Y gwahaniaeth a wnaed

9.19 Fel y nodir yn Ffigur 9.5, roedd llawer o'r ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod CCDC yn gwneud cyfraniad sylweddol, neu rywfaint o gyfraniad, tuag at wireddu ei phum blaenoriaeth allweddol. Er bod hynny'n gadarnhaol, roedd ychydig yn llai o'r farn bod CCDC yn cyfrannu at Flaenoriaeth 3 (mynd i'r afael â thlodi data). Efallai nad yw hynny'n syndod o ystyried nad yw CCDC wedi cynhyrchu adroddiad effaith ar Flaenoriaeth 3 eto.

Ffigur 9.5: Y cyfraniad a wnaed gan CCDC hyd yma tuag at wireddu ei phum blaenoriaeth allweddol



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 (38 o ymatebion)

9.20 Amlygodd y rhai a gyfwelwyd a'r cyfranwyr at y grwpiau ffocws y cyfraniad yr oedd CCDC wedi'i wneud tuag at y Safon Ofynnol Newydd ar gyfer Bywyd Digidol (MDLS), sef Blaenoriaeth 5 agenda'r gynghrair. Nododd y cyfranwyr fod CCDC wedi dadlau bod angen i Lywodraeth Cymru ariannu'r gwaith yng Nghymru, er mwyn gwella'r dystiolaeth a gasglwyd eisoes gan Lywodraeth y DU. Nodwyd bod grŵp llywio CCDC wedi helpu i lunio'r gwaith ymchwil yng Nghymru, a bod aelodau'r rhwydwaith wedi nodi cyfranogwyr ymchwil i gyfrannu at sesiynau grŵp ffocws. Yn yr ystyr hwn, roedd llawer o ganmoliaeth i rôl eiriolaeth CCDC:

> 'wrth i ni dyfu, mae ein llais cyfunol am yr hyn y mae angen ei wneud ar draws y maes cynhwysiant digidol yn mynd yn uwch' [staff CDC]

9.21 Roedd y cyfranwyr ychydig yn fwy beirniadol o'r ffaith nad oedd CCDC wedi darparu unrhyw fentrau amlwg, ar lawr gwlad, megis treialu dulliau penodol o fynd i'r afael yn uniongyrchol â phroblemau penodol. Yn hyn o beth, awgrymwyd y dylai CCDC fabwysiadu dull gweithredu mwy 'ymarferol', gydag aelodau'n dod yn fwy gweithredol; fodd bynnag, cwestiynodd rhai a fyddai hyn yn ymarferol:

'Allwn i ddim dweud wrthych chi beth yn union y mae wedi'i gyflawni... mae angen iddo fod yn fwy ymarferol' [aelod o CCDC]

'mae'n gwneud pethau ysgafn a meddal ond os mai cyflawni'n gyflym ar raddfa fawr yw'r awydd, wn i ddim a yw'n bosibl cyflawni hynny drwy Gynghrair. [aelod o CCDC]

9.22 Pan ofynnwyd iddynt am brif gyflawniadau CCDC hyd yma, amlygodd yr ymatebwyr i'r arolwg y pwyntiau canlynol:

- mae CCDC wedi llwyddo i ddod â sefydliadau o wahanol sectorau ynghyd, gan feithrin trefniadau cydweithio a chwalu seilos
  'Dod â nifer fawr o wahanol sefydliadau a lleisiau ynghyd mewn un lle i yrru cynhwysiant digidol yn ei flaen.'
- mae wedi chwarae rhan bwysig o ran codi proffil cynhwysiant digidol ar lefel genedlaethol, gan ei gadw ar yr agenda yn ystod cyfnod heriol a gwthio iddo gael ei gydnabod ledled Cymru:
  ‘Codi ymwybyddiaeth o’r angen am gynhwysiant digidol ar lefel penderfyniadau a wneir yn genedlaethol’
- mae CCDC yn llwyfan ar gyfer rhannu arferion gorau a syniadau, gan roi cyfleoedd i aelodau ddysgu oddi wrth ei gilydd a gwella eu hymdrechion o ran cynhwysiant digidol:
  ‘Cartref i’r rhai sy’n gweithio ar gynhwysiant digidol, sy’n cynnig lle i ddarparu cyd-gymorth ac i gydweithio’
- mae CCDC wedi helpu i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, gan eiriol dros roi ffocws parhaus ar gynhwysiant digidol drwy ymgyngoriadau a chynrychiolaeth:
  'Gwthio'r pwnc gyda Llywodraeth Cymru, a fydd, gobeithio, yn parhau i weld yr arwyddocâd'
- mae CCDC wedi cefnogi ei haelodau drwy ddarparu addysg ac adnoddau, gan helpu sefydliadau i wella eu gwasanaethau eu hunain:
  'Creu'r cyfle i mi a fy nhîm i wella'r gwasanaeth a ddarparwn'

Dyfodol CCDC

9.23 Roedd cefnogaeth gref i sicrhau parhâd CCDC yn y dyfodol. Yn nodedig, roedd pob un ond dau o ymatebydd i'r arolwg yn credu y dylai'r CCDC barhau y tu hwnt i gyfnod cyllido presennol CDC. Roedd un ymatebydd yn anghytuno, ac un arall yn ansicr.

9.24 Blaenoriaeth allweddol ar gyfer y dyfodol yw cynaliadwyedd CCDC, yn enwedig o ran y cyllid. Cododd yr ymatebwyr i'r arolwg a'r rhai a gyfwelwyd bryderon am yr effaith bosibl ar CCDC pan ddaw cyllid CDC i ben. Ar hyn o bryd, mae'r aelodau'n asesu opsiynau i sicrhau parhad CCDC ac yn archwilio gwahanol strategaethau cyllido, o ystyried mai costau staff yw'r brif gost. Mae’r strategaethau hyn yn cynnwys model aelodaeth, nawdd gan y sector preifat, a chyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru.

9.25 Amlygodd y rhai a gyfrannodd at y gwerthusiad hwn fanteision ac anfanteision pob opsiwn cyllido. Mynegwyd pryderon ynghylch dylanwad posibl nawdd y sector preifat ar waith CCDC, gan y gallai hyn newid ethos presennol y rhwydwaith. Yn yr un modd, codwyd cwestiynau ynghylch a fyddai sefydliadau yn gweld digon o werth yn y rhwydwaith i gyfiawnhau cyfraniadau ariannol. Er bod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei groesawu, nodwyd y gallai hefyd ddylanwadu ar weithrediadau CCDC.

9.26 Er bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd datblygu model sy'n ariannol gynaliadwy ar gyfer CCDC cyn gynted â phosibl, roedd consensws cyffredinol ymhlith cyfranwyr eraill y gallai fod yn dal yn rhy gynnar yn natblygiad CCDC i benderfynu ar y dull cyllido mwyaf addas. O ganlyniad, roedd llawer o’r cyfranwyr hyn yn ffafrio parhau â’r model cyllido presennol am y tro.

9.27 Nodwyd mai blaenoriaethau allweddol eraill ar gyfer CCDC yn y dyfodol fydd gwaith ar yr MDLS; ehangu'r rhwydwaith; annog mwy o sefydliadau i fabwysiadu’r Siarter Cynhwysiant Digidol (ac ennill achrediad) a chefnogaeth barhaus ynghylch cydweithredu rhwng sefydliadau i atal dyblygu ymdrechion yn ymwneud â chynhwysiant digidol yn ddiangen.

9.28 Awgrymodd yr ymatebwyr i’r arolwg y gwelliannau canlynol i CCDC hefyd:

- canlyniadau cliriach a chyflawniadau mwy mesuradwy, gan gynnwys cyfathrebu gwell ynghylch effaith CCDC:

  'nid yw'n glir beth mae'r prosiect hwn wedi'i gyflawni mewn gwirionedd'

- offer gwell ar gyfer cydweithio, gan gynnwys yr angen am blatfform diogel i rannu dogfennau a chysylltiadau y tu allan i gyfarfodydd:

  'man diogel i gadw dogfennau, cyflwyniadau a chysylltiadau fel y gallwn rwydweithio y tu allan i'r cyfarfodydd'

- mwy o amrywiaeth, a chynnwys mwy o sefydliadau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o fewn y rhwydwaith:

  'nid oes bron ddim sefydliadau ethnig leiafrifol yn rhan o'r rhwydwaith'

- mwy o gyfleoedd i rwydweithio, gyda mwy o ddigwyddiadau wyneb-yn-wyneb a 'chyfle i rwydweithio ag aelodau'.

10. Y dyfodol

10.1 Mae'r bennod hon yn ystyried barn y cyfranwyr am y dyfodol pan ddaw cyllid presennol CDC i ben ym mis Mehefin 2025. Mae'n ystyried dau brif fater – natur blaenoriaethau'r dyfodol; a sut y dylid cyllido a chyflawni'r rhain.

Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

10.2 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru, staff cyflawni CDC a sefydliadau a gyfwelwyd i gyd yn credu y dylai'r ymdrechion i sicrhau cynhwysiant digidol barhau y tu hwnt i fis Mehefin 2025. Byddai dirwyn CDC i ben yn gadael bwlch sylweddol, gan effeithio'n benodol ar sefydliadau sy'n dibynnu ar hyfforddiant parhaus oherwydd nad oes ganddynt y capasiti mewnol i'w ddarparu eu hunain. Heb gefnogaeth barhaus, mae pryder hefyd y gallai Cymru – sy'n arweinydd yn y maes cynhwysiant digidol yn hanesyddol – fod ar ei hôl hi o gymharu â'r Alban a Lloegr, sydd ill dau yn cymryd camau breision yn y maes hwn.

10.3 Yn ystod ein gwaith maes, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid i asesu ymdrechion cynhwysiant digidol cyfredol ledled Cymru. Bydd y wybodaeth sy'n deillio o'r digwyddiadau hyn yn hanfodol ar gyfer cynllunio ymyriadau yn y dyfodol.

10.4 Mae CDC wedi cyhoeddi argymhellion polisi i helpu i ddileu allgáu digidol. Yn Cynhwysiant Digidol: Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol (2024)[44], mae'n eiriol dros ymrwymiad chwe blynedd i raglen cynhwysiant digidol er mwyn targedu'r 7% o bobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol; ac i gefnogi sefydliadau a grwpiau cymunedol. Ymysg yr argymhellion mae:

- gweithredu canfyddiadau'r peilot ymchwil Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol a'i ehangu i bob cartref yng Nghymru
- parhau â chyllido y Gynghrair Cynhwysiant Digidol a fydd yn ei galluogi i ystyried opsiynau ar gyfer pontio i ffynonellau cyllido amgen

[44] Cynhwysiant Digidol: Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol - Cwmpas

- y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu partneriaethau strategol gyda'r diwydiant technoleg i gefnogi rhaglen cynhwysiant digidol estynedig
- y dylai pob rhaglen trawsnewid digidol yn y dyfodol gynnwys canran o'i chyllid ar gyfer cynhwysiant digidol.

10.5 Nododd gwaith maes y gwerthusiad saith blaenoriaeth yn y dyfodol ar gyfer unrhyw ymyriad cynhwysiant digidol olynol, gan dderbyn y byddai cyllid yn y dyfodol ar gyfer darpariaeth cynhwysiant digidol yn gyfyngedig, ac felly byddai angen ei flaenoriaethu'n effeithiol.

Ymdrech genedlaethol, strategol i sicrhau cynhwysiant digidol

10.6 Nododd y gwerthusiad yr angen am ddull cenedlaethol parhaus o ymdrin â chynhwysiant digidol, gyda chefnogaeth eang i barhau â'r rôl gydlynu a chynnal brand uchel ei barch CDC. Drwy ddirwyn CDC i ben, byddai perygl o golli staff sydd â gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd gwerthfawr i gyflwyno darpariaeth cynhwysiant digidol, a allai achosi i Gymru fod ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill:

> 'Mae Cwmpas wedi gwneud hyn ers 15 mlynedd ac mae ganddo dîm gwych sydd â gwybodaeth ac arbenigedd rhagorol. Byddai colli hyn yn risg fawr i Lywodraeth Cymru... mae risg y byddai Cymru ar ei hôl hi [o gymharu â gwledydd eraill y DU]' [swyddog Llywodraeth Cymru]

Cynhwysiant digidol fel ymyriad trawsbynciol

10.7 Mae awydd i ymwreiddio cynhwysiant digidol ar draws sawl maes polisi Llywodraeth Cymru, y tu hwnt i iechyd a gofal cymdeithasol, gan ymestyn i feysydd fel tai cymdeithasol, cyflogadwyedd, a chymorth i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Byddai'r dull trawsbynciol hwn yn adlewyrchu effaith pellgyrhaeddol cynhwysiant digidol:

> 'Mae CDC yn rhan o'r jig-so. Nid dyna'r darlun cyfan ac nid dyna'r ateb' [swyddog Llywodraeth Cymru]

Yr angen i dargedu'r rhai sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ddigidol

10.8 Un o'r prif flaenoriaethau yw cyrraedd y 7% o bobl yng Nghymru sy'n parhau i fod wedi'u hallgáu'n ddigidol. Nid yw rhaglen CDC sydd ar-lein yn

bennaf yn gwbl addas ar gyfer y grŵp hwn, a dylid archwilio cymorth ymarferol sy'n seiliedig ar le. Roedd dau ddull o'r fath yn cael eu treialu adeg ein gwerthusiad, gyda chefnogaeth gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ar draws Sir Ddinbych a Phowys. Byddai'n werth ystyried canfyddiadau unrhyw werthusiadau o'r prosiectau hyn, ac unrhyw wersi ynghylch sut i gyrraedd carfannau penodol sydd wedi'u hallgáu.

Darpariaeth hyblyg, leol

10.9 Er bod adnoddau CDC yn canolbwyntio'n bennaf ar gydlynu cenedlaethol, gellid defnyddio cyllid yn y dyfodol hefyd i gefnogi mentrau mwy lleol, o bosibl drwy gynllun grant, i gefnogi grwpiau lleol i fanteisio ar adnoddau i ddarparu ymyrraeth bersonol. Roedd awgrym y gallai dull deublyg fod yn briodol yn y dyfodol, gan adeiladu ar rywfaint o'r ddarpariaeth thematig ymarferol sydd ar gael ers mis Ebrill 2024.

Cymorth wedi'i dargedu at sectorau penodol

10.10 Mae parhau i ddigideiddio gwasanaethau iechyd yn creu angen i gefnogi defnyddwyr y gwasanaethau hyn, gyda phwyslais ar fyrddau iechyd sy'n arafach i fabwysiadu cynhwysiant digidol. Mae pocedi cynyddol o arfer da, ond nid ym mhob bwrdd iechyd.

10.11 Cafwyd awgrym cryf bod angen annog y byrddau iechyd sy'n weddill nad ydynt eto wedi cofleidio cynhwysiant digidol yn llawn i'r graddau y mae arweinwyr y sector wedi'i wneud, i gofleidio'r agenda hon. Awgrymwyd bod angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o gyfarwyddyd ac arweiniad i sicrhau bod yr holl fyrddau iechyd mewn sefyllfa debyg i arweinwyr y sector.

10.12 Yn yr un modd, mae adnoddau wedi'u targedu ar gyfer preswylwyr tai cymdeithasol yn hanfodol, gan fod y garfan hon yn dal i brofi lefelau uchel o allgáu digidol ac maent yn ffocws o fewn yr MDLS.

DPA sy'n gallu ymdopi â newidiadau yn y broses gyflawni

10.13 Roedd galw am unrhyw raglen yn y dyfodol i osod DPA mwy cyffredinol a allai gynnwys unrhyw newidiadau i ddarpariaeth y rhaglen dros amser, heb fod angen ailedrych arnynt a'u diwygio'n rheolaidd, fel sydd wedi digwydd yn y rhaglen bresennol. Cydnabuwyd y byddai hyn yn heriol o safbwynt

proses gaffael Llywodraeth Cymru, gan y byddai unrhyw ymyrraeth yn y dyfodol yn dal i fod angen metrigau allbwn i asesu perfformiad a chyflawniadau.

Gwella metrigau allgáu digidol

10.14 Mae metrigau cywir yn hanfodol ar gyfer asesu cynnydd. Nid yw'r dangosydd sengl presennol ar gyfer defnydd personol yn gyfredol, ac mae’r MDLS a chwestiynau arolwg yn dangos addewid, yn enwedig ar gyfer nodi anghenion grwpiau penodol, megis cartrefi â phlant.

11. Casgliadau ac argymhellion

11.1 Mae’r bennod hon yn amlinellu ein casgliadau am raglen Cymunedau Digidol Cymru (CDC) ac yn cynnig set o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried ar gyfer y dyfodol, ar ôl Mehefin 2025 pan ddaw’r rhaglen bresennol i ben.

11.2 Dros y tair blynedd diwethaf, bu ffocws polisi parhaus a chadarnhaol ar gynhwysiant digidol ledled Cymru, gyda CDC yn cael ei chydnabod fel rhaglen allweddol ar gyfer gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r nodau polisi hyn. Mae'r rhaglen hefyd wedi dylanwadu'n ystyrlon ar ddatblygiad polisi, yn enwedig wrth gyfrannu at greu'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol (MDLS).

11.3 Er bod CDC wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at leihau nifer y bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yng Nghymru, mae ffactorau allanol eraill, megis y pandemig COVID-19 a chynnydd mewn gwasanaethau ar-lein, hefyd wedi bod yn allweddol i haneru cyfran yr oedolion yng Nghymru nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd ers 2012/13.

11.4 Fodd bynnag, mae'r ffaith bod cyfran y bobl sydd wedi’u hallgáu’n ddigidol yng Nghymru wedi gwastatáu dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn haeddu ystyriaeth, gan ei fod yn awgrymu efallai na fydd parhau â’r un dull gweithredu yn arwain at leihad pellach sylweddol yn y nifer hwn. Mae’r rhai sy’n parhau i fod wedi’u hallgáu’n ddigidol yn fwyfwy anodd eu cyrraedd ac, o’r herwydd, maent yn debygol o fod angen cymorth dwysach, wyneb yn wyneb, i ymgysylltu â’r byd digidol. O safbwynt cyllido, bydd ymgysylltu â'r grwpiau hyn sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ddrutach ac yn cynnig cymhareb cost a budd is ar gyfer unrhyw raglen a ariennir. Nid yw rhaglen genedlaethol fel CDC, a ddarperir yn rhithwir yn bennaf, wedi'i chynllunio ar hyn o bryd i ddarparu'r lefel hon o gymorth wedi'i dargedu.

11.5 O ran cymorth yn y dyfodol, mae achos clir dros fuddsoddiad parhaus gan Lywodraeth Cymru mewn mentrau cynhwysiant digidol yng Nghymru, ac mae angen i lefelau'r buddsoddiad gynyddu’n gynyddrannol dros amser. At hynny, mae dadl gref y dylai Llywodraeth Cymru gynnig mwy o gyfarwyddyd i’r sector iechyd ynghylch yr hyn sy’n gyfystyr ag arfer da ar

lefel strategol a gweithredol. Gallai hyn gynnwys nodi disgwyliad y bydd sefydliadau'n datblygu strategaeth cynhwysiant digidol ac yn sefydlu tîm trawsnewid digidol gyda chapasiti cynhwysiant digidol penodol neu rolau cynhwysiant digidol wedi'u hymwreiddio.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymell bod cynhwysiant digidol yn haeddu cael mwy o flaenoriaeth ar draws Llywodraeth Cymru a dylai cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant digidol gael ei ystyried yn faes gwaith trawsbynciol, ac nid ei gyfyngu i un neu ddwy o adrannau Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 2: Dylai unrhyw gyllid yn y dyfodol ar gyfer mentrau cynhwysiant digidol gynnwys adnoddau i dargedu a chynnig cymorth dwys i unigolion sydd wedi'u tangynrychioli ac sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae lle i ymchwilio i'r defnydd o fecanweithiau hyblyg, sy'n seiliedig ar le, i ddarparu mwy o gymorth ymarferol i gynulleidfaoedd targed penodol, gan ddefnyddio mewnbwn gwirfoddolwyr a mentrau llwyddiannus CDC megis Arwyr Digidol, fel y bo'n briodol.

11.6 Ers paratoi'r adroddiad gwerthusiad interim, mae rhaglen waith CDC wedi mynd drwy newid sylweddol, gyda dull thematig diwygiedig wedi'i gyflwyno o fis Ebrill 2024 mewn ymateb i doriadau arfaethedig yn y cyllid. Er bod y newid hwn wedi creu heriau sylweddol ac wedi defnyddio adnoddau prin y rhaglen, mae'r ffocws thematig newydd wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol, gan alluogi CDC i weithio mewn ffordd sydd wedi'i thargedu'n fwy penodol. Ymddengys fod y gefnogaeth ddwys i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn effeithiol a gallai fod yn fodel ar gyfer ymgysylltu â grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a chanddynt sgiliau digidol cyfyngedig yn y dyfodol.

Argymhelliad 3: Dylid parhau â'r dull thematig a fabwysiadwyd yn ystod 2024 a'i ddefnyddio fel sail i ddyluniad a strwythur rhaglenni cynhwysiant digidol yn y dyfodol.

11.7 Yn ystod y cyfnod cyflawni, mae brand CDC wedi cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n fawr, ac mae'n bwysig nad yw hyn yn cael ei golli pan ddaw cyllid y rhaglen i ben ym mis Mehefin 2025.

11.8 Yn ogystal â hynny, mae'r rhaglen CDC wedi dod yn fwy strategol o ran ei gweithrediad dros amser, ac mae'n cyflawni ei huchelgeisiau drwy drefniadau cydweithio cryfach â rhanddeiliaid allweddol. Wrth wneud hynny, mae CDC wedi ymgymryd â rôl fwy dylanwadol fel arweinydd strategol a chorff cydgysylltu wrth symud yr agenda cynhwysiant digidol yn ei blaen ledled Cymru, gan sefydlu ei hun fel endid uchel ei barch.

Argymhelliad 4: Mae'n werth cadw brand CDC y tu hwnt i fis Mehefin 2025, ynghyd â swyddogaethau strategol a chydgysylltu cenedlaethol y rhaglen.

11.9 Yn gyffredinol, mae CDC wedi perfformio'n dda yn erbyn ei DPA amrywiol dros gyfnod cyllido chwe blynedd y rhaglen. Er bod y cynnydd yn erbyn y targedau'n ymwneud â chefnogi staff iechyd a gofal yn araf i ddechrau, gwelwyd gwelliant sylweddol yn maes hwn dros amser oherwydd ymgysylltiad cynyddol gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol. O ystyried ei bod yn edrych yn realistig y bydd y rhaglen yn cyflawni ei DPA presennol, ac o bosibl yn rhagori arnynt, erbyn mis Mehefin 2025, efallai y bydd achos dros archwilio sut y gallai CDC ddefnyddio mwy o'i hadnoddau i ddarparu cymorth dwys i unigolion a dangynrychiolir ac sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol rhwng nawr a diwedd y rhaglen.

11.10 Fodd bynnag, mae recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr wedi parhau i fod yn her ers y pandemig. Er bod y penderfyniad i ddileu'r targedau hyn o'r contract cyflawni o fis Ebrill 2024 ymlaen yn benderfyniad priodol, mae eu dileu yn codi cwestiynau ynghylch damcaniaeth newid sylfaenol CDC, gan fod y rhaglen wedi'i chynllunio'n wreiddiol ar y rhagdybiaeth y byddai gwirfoddolwyr yn rhaeadru sgiliau digidol a gwybodaeth ddigidol i eraill.

11.11 Y prif faes lle mae'r rhaglen wedi wynebu heriau yw cyrraedd ei tharged ar gyfer sefydliadau'r sector preifat. Mae cyflawniadau CDC yn y sector hwn wedi bod yn anfoddhaol, ac mae'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn wedi'u trafod yn yr adroddiad. Pe bai Llywodraeth Cymru yn dymuno mynd ar drywydd yr amcan hwn ymhellach yn y dyfodol, efallai y byddai'n fuddiol ystyried dull amgen o weithio gyda'r sector preifat - megis drwy bartneriaeth â Busnes Cymru neu drwy wneud defnydd mwy effeithiol o CCDC, sydd â chynrychiolaeth o'r sector preifat o fewn ei aelodaeth.

Argymhelliad 5: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellid ymgysylltu'n well â'r sector preifat i fynd i'r afael â materion allgáu digidol ledled Cymru. Dylid ystyried gweithio gyda sefydliad neu fenter briodol sydd â'r cyrhaeddiad a'r dylanwad angenrheidiol ar draws y sector hwn.

11.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod adolygu DPA CDC ar sawl achlysur dros gyfnod cyflawni'r rhaglen, er mwyn ystyried effaith newidiadau allanol fel y pandemig COVID-19 a newidiadau yn y ffordd y caiff rhaglenni eu darparu. Mae hyn yn aml wedi achosi heriau oherwydd newidiadau i'r cytundeb cyllido ac mae'n ei gwneud yn anodd mesur cyflawniadau cyffredinol CDC dros y cyfnod chwe blynedd. Mae dadl gref dros fabwysiadu DPA ehangach sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd yn y dyfodol, a all gynnwys newidiadau i weithrediad y rhaglen gan lunio rhaglen waith heb fod angen newid yr allbynnau disgwyliedig. Mae achos cryf hefyd dros sicrhau y gall unrhyw raglen cynhwysiant digidol yn y dyfodol adrodd ar ganlyniadau sy'n cyd-fynd â'r diffiniadau a nodir ar gyfer yr MDLS.

Argymhelliad 6: Rydym yn argymell gosod targedau cyllido mwy hyblyg ar gyfer unrhyw raglenni cynhwysiant digidol yn y dyfodol, nad oes angen eu diwygio i adlewyrchu diwygiadau mawr i'r rhaglen waith dros amser.

Argymhelliad 7: Rydym hefyd yn argymell bod unrhyw ymyriadau cynhwysiant digidol yn y dyfodol yn casglu ac yn adrodd ar ganlyniadau sy'n cyd-fynd â'r diffiniadau a nodir yn yr MDLS.

11.13 Un o brif effeithiau'r rhaglen CDC fu'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol a chynnydd yn yr ymgysylltiad â'r maes ar draws y sefydliadau targed, yn enwedig o fewn y sector iechyd. Er y gall fod rhywfaint o duedd yn ein canfyddiadau oherwydd y broses ddethol ar gyfer sefydliadau sy'n rhan o'r astudiaethau achos, mae tystiolaeth gref bod sefydliadau'r sector iechyd bellach yn croesawu'r agenda hon. O ganlyniad, maent yn defnyddio mewnbynnau CDC yn effeithiol. Dangosir hyn gan y nifer cynyddol o ymarferwyr yn y sector iechyd sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant CDC, sy'n dyst i ymdrechion parhaus tîm cyflawni CDC a

swyddogion Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cynhwysiant digidol o fewn y sector.

11.14 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy sefydliadau astudiaethau achos yn dangos bod y rhaglen CDC yn cyflawni ei thri chanlyniad yn effeithiol. Mae’r adborth a gasglwyd gan sefydliadau sy'n rhan o'r astudiaethau achos hefyd yn awgrymu bod benthyg cyfarpar digidol i sefydliadau, a’u defnyddwyr neu eu haelodau, yn parhau i fod yn hynod effeithiol lle mae hyn wedi’i ymwreiddio yn y ddarpariaeth cymorth a hyfforddiant ehangach.

Argymhelliad 8: Dylai unrhyw fenter cynhwysiant digidol yn y dyfodol barhau i sicrhau bod cyfarpar digidol ar gael i sefydliadau a’u buddiolwyr i'w benthyca, ar yr amod bod hyn yn rhan greiddiol o’r cymorth a ddarperir.

11.15 O ran Canlyniad 1 (pobl yn meddu ar ddigon o sgiliau digidol sylfaenol a hyder i allu i ymgysylltu’n ddigidol yn eu bywydau beunyddiol a’u bywydau gwaith) mae tystiolaeth dda bod CDC wedi cefnogi sefydliadau i nodi bylchau mewn sgiliau digidol yn eu gweithlu ac wedi darparu hyfforddiant sgiliau digidol wedi’i dargedu i helpu i fynd i’r afael â rhain. Mewn rhai achosion, mae CDC wedi gwella'n sylweddol gapasiti hyfforddi sefydliadau na fyddent fel arall yn gallu darparu rhaglen mor gynhwysfawr i'w gweithlu. Mae’r graddau y mae staff gweithlu hyfforddedig wedyn yn trosglwyddo’r sgiliau y maent wedi'u dysgu i eraill, boed yn gydweithwyr neu’n aelodau o’r cyhoedd, yn amrywio ar draws gwahanol leoliadau. Fodd bynnag, mae gwaith maes y gwerthusiad wedi amlygu rhai enghreifftiau rhagorol lle mae hyn wedi digwydd yn llwyddiannus.

11.16 Ceir tystiolaeth dda hefyd, a gasglwyd drwy'r gwerthusiad hwn ac astudiaethau achos CDC ei hun, o unigolion yn defnyddio technoleg i reoli eu hiechyd a'u llesiant yn well (Canlyniad 2). Mae'r enghreifftiau hyn yn cynnwys defnyddwyr llyfrgelloedd, preswylwyr cartrefi gofal, aelodau o grwpiau cymunedol, a chleifion iechyd. Dengys yr astudiaethau achos a gasglwyd drwy’r gwerthusiad sut y mae cymorth CDC wedi arwain at welliannau mewn llesiant ac iechyd meddwl boed hynny drwy gysylltedd digidol gwell sy’n helpu i leddfu unigrwydd neu drwy wella gallu unigolion i reoli eu hiechyd eu hunain gan ddefnyddio cyfarpar digidol amrywiol.

11.17 O ran Canlyniad 3 (cynnydd mewn perchnogaeth o gynhwysiant digidol gan randdeiliaid a chleientiaid) eto mae llu o enghreifftiau o astudiaethau achos sy'n dangos sut y mae sefydliadau ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a thai cymdeithasol yn cofleidio cynhwysiant digidol yn llawn. Mewn rhai o'r achosion hyn, mae cynhwysiant digidol wedi'i ymwreiddio yn strategaeth y sefydliad ac wedi arwain at sefydlu timau trawsnewid digidol a rhaglen barhaus o hyfforddiant digidol ar gyfer y gweithlu. Mae'r astudiaethau achos yn taflu goleuni pwysig ar yr heriau y mae'r sefydliadau hyn yn eu hwynebu i gynnal eu hymdrechion cynhwysiant digidol boed y rheini'n ymwneud â materion arweinyddiaeth, cyfyngiadau ariannol neu gymorth polisi cyfyngedig. Yn yr ystyr hwn, maent yn atgyfnerthu'r sefyllfa fregus y mae cynhwysiant digidol ynddi ar hyn o bryd, a gallai tynnu'r ymyriad CDC yn ôl arwain at golli momentwm ar draws sefydliadau o'r fath.

11.18 O ran y sector tai cymdeithasol, mae'r ddwy astudiaeth achos a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod y sefydliadau hyn mewn sefyllfa gryn dipyn yn gryfach o ran darpariaeth cynhwysiant digidol erbyn diwedd cyfnod cyflawni'r rhaglen. Maent wedi sefydlu strwythurau priodol i gynnal eu darpariaeth hyd yn oed os caiff adnoddau CDC eu tynnu'n ôl. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod yr astudiaethau achos hyn yn cynrychioli darparwyr tai cymdeithasol sydd yn y sefyllfa gryfaf, yn hytrach nag adlewyrchu sefyllfa'r sector ehangach.

11.19 I'r gwrthwyneb, mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy astudiaethau achos awdurdodau lleol a drafodwyd yn y gwerthusiad hwn yn awgrymu, er bod y sector hwn yn gwneud cynnydd da o ran cynhwysiant digidol, nad yw datblygiadau wedi'u hymwreiddio'n ddigonol i gael eu cynnal yn llawn heb gymorth ac arweiniad yn y dyfodol gan raglen fel CDC. Mae perygl y gallai'r momentwm a gasglwyd hyd yma gael ei golli mewn rhai achosion o ganlyniad i lai o ffocws gan CDC ar awdurdodau lleol fel cynulleidfa darged.

11.20 Dros gyfnod cyllido'r rhaglen, mae CCDC wedi tyfu ac ehangu ei haelodaeth. Mae hefyd wedi sicrhau mwy o eglurder o ran ei diben ac wedi mabwysiadu dull mwy strwythuredig o gyflawni ei blaenoriaethau allweddol. Mae CCDC yn gweithredu fel llais credadwy yn agenda cynhwysiant digidol Cymru ac wedi gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygiad yr MDLS yng

Nghymru. Awgryma'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad hwn fod y gynghrair wedi bod yn ddull effeithiol o rannu arferion gorau, hwyluso cydweithio ar draws sectorau a darparu llwyfan cryf ar gyfer hyrwyddo cynhwysiant digidol.

11.21 Mae sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor ar ôl i gyllid CDC ddod i ben yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i CCDC. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw’r rhwydwaith mewn sefyllfa i fod yn hunangynhaliol ac mae perygl y bydd yn dod i ben heb ragor o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. O ran blaenoriaethau CCDC yn y dyfodol, mae angen rhagor o amrywiaeth ymysg yr aelodau er mwyn cynrychioli cymunedau ethnig ac ieithyddol Cymru yn fwy effeithiol. At hynny, er bod CCDC wedi cyfrannu’n gadarnhaol at y dirwedd cynhwysiant digidol ehangach, mae cyfle i'r gynghrair chwarae mwy o ran mewn mentrau go iawn, ar lawr gwlad i fynd i’r afael yn uniongyrchol â materion fel tlodi data.

Argymhelliad 9: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi CCDC yn ariannol dros y tair blynedd nesaf. Dros y cyfnod hwn, dylai fod yn ofynnol i sefydliadau sy’n aelodau wneud cyfraniad ariannol i’r CCDC, gyda’r nod o leihau’n raddol gyfran Llywodraeth Cymru o’r cyllid cyffredinol dros amser.

Argymhelliad 10: Rydym yn argymell y dylai unrhyw gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i CCDC yn y dyfodol ei gwneud yn ofynnol i CCDC brofi mentrau prawf cysyniad a bod yn gydnaws ag allbynnau a chanlyniadau penodol. O ystyried mai cymharol ychydig o lwyddiant a gafodd CDC o ran ymgysylltu â'r sector preifat, gallai hwn fod yn un maes addas i ymchwilio iddo.